Rhan B – Gweithredu cyn y pleidleisio

Cynnwys

1 Amserlen

2 Y gofrestr etholwyr
- Gofynion cyfreithiol
- Y gofrestr i'w defnyddio ar gyfer enwebiadau
- Diwygio'r gofrestr etholiadol – gwallau clercyddol
- gorsafoedd pleidleisio
- Cofrestri gorsafoedd pleidleisio
- Mynediad a chyflenwi

3 Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau
- Briffiadau
- Pecyn enwebu
- Anghenion mynediad i ymgeiswyr

4 Y broses enwebu
- Cyhoeddi hysbysiad yr etholiad
- Y gofrestr pleidiau gwleidyddol
- Cymwysterau ymgeisyddiaeth
- Paratoi ffurflen i'w llofnodi
- Ffurflenni y gellir eu defnyddio i enwebu
- Dosbarthu papurau enwebu
- Gwiriadau anffurfiol
- Ffurf enwebu
- Datganiadau anwir mewn papurau enwebu
- Blaendal
- Cywiro gwallau bach
- Penderfyniad ynghylch dilysrwydd papurau enwebu
- Gwrthwynebiadau i bapurau enwebu
- Ymgeisydd yn tynnu'n ôl
- Storio papurau enwebu
- Datganiad ynghylch y personau a enwebwyd
- Etholiadau diwrthwynebiad

5 Penodi asiantau etholiad, pleidleisio a chyfrif
- Penodi asiantau etholiad
- Penodi asiantau pleidleisio a chyfrif

6 Marwolaeth ymgeisydd
Marwolaeth ymgeisydd annibynnol
Marwolaeth ymgeisydd plaid
Marwolaeth y Llefarydd

7 Cynhyrchu a dosbarthu cardiau pleidleisio
Cynhyrchu
Dosbarthu

8 Cynhyrchu a dyrannu papurau pleidleisio
Diogeledd papurau pleidleisio
Ffurf y papur pleidleisio
Dyrannu papurau pleidleisio
Rhestr rhifau cyfatebol

9 Hysbysiadau a chyfarpar pleidleisio
Hysbysiad y bleidlais
Hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio
Cyfarpar, hysbysiadau a chyflenwadau gorsafoedd pleidleisio

1 Amserlen

1.1 Mae'r amserlen ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU wedi ei nodi yn rheolau etholiadau Senedd y DU.[1] Cyfrifir amserlen yr etholiad trwy eithrio *dies non*, sef dydd Sadwrn, dydd Sul, Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith, unrhyw wyliau banc eraill, unrhyw ddiwrnod o alaru neu ddiolchgarwch swyddogol a diwrnodau penodol ar ôl marwolaeth y brenin neu'r frenhines (gweler isod).[2] Trwy gydol y canllawiau hyn, mae cyfeiriadau at ddiwrnodau 'gwaith' yn ymddangos lle mae'r cyfnod o amser perthnasol yn cael ei gyfrifo trwy eithrio *dies non*. Mae unrhyw gyfeiriadau at ddiwrnodau 'calendr' yn ymddangos lle mae'r cyfnod o amser yn cael ei gyfrifo trwy gyfrif pob diwrnod, yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

1.2 Wrth gyfrifo amserlen yr etholiad ar gyfer etholiad cyffredinol i Senedd y DU, mae'n bwysig cofio y bydd gŵyl banc unrhyw le yn y DU yn effeithio ar amserlen yr etholiad ym mhob man yn y DU. O ganlyniad, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yng Nghymru a Lloegr ymgorffori gwyliau banc yr Alban yn unig a Gogledd Iwerddon yn unig i'w hamserlenni, yn yr un modd ag y mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn yr Alban, er enghraifft, gynnwys gwyliau banc sydd ond yn berthnasol i Gymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn eu hamserlen hwy.[3]

1.3 Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 yn gwneud darpariaethau ar gyfer 'rhewi' amserlen yr etholiad am 14 diwrnod calendr os yw'r brenin neu'r frenhines yn marw yn ystod y cyfnod rhwng y proclamasiwn a'r diwrnod pleidleisio.[4] Byddai hyn yn cael yr effaith o drin y proclamasiwn fel pe bai wedi cael ei wneud 14 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad gwirioneddol y'i gwnaed a thrin y gwrit fel pe bai wedi cael ei dderbyn 14 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad gwirioneddol y'i derbyniwyd. Gellid hefyd ymestyn amserlen yr etholiad trwy ychwanegu diwrnodau ar gyfer galaru cyhoeddus, a byddai pob diwrnod o'r fath yn ymestyn yr amserlen o ddiwrnod. Dylid nodi er y byddai'r oedi o 14 diwrnod yn digwydd yn awtomatig wrth gyhoeddi marwolaeth y brenin neu'r frenhines, byddai'n rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwrnod(au) o alaru yn ffurfiol.

Ni ellir diwygio amserlen etholiad Seneddol y DU am unrhyw reswm arall.

[1] Rheol 1, PER.
[2] Noder: Nid yw Dydd Iau Cablyd bellach yn *dies non* (Adran 20, EAA).
[3] Rheol 2(2), PER.
[4] Adran 20, RPA 1985.

Tabl 1: Amserlen ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU

Digwyddiad	**Nifer y diwrnodau gwaith cyn pleidleisio (dyddiad cau os nad 12 canol nos)**
Cyhoeddi gwrit/proclamasiwn	17 diwrnod
Derbyn gwrit	17 neu 16 diwrnod
Hysbysiad etholiad i gael ei gyhoeddi	Cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn gwrit a dim hwyrach na derbyn gwrit + 2 ddiwrnod (erbyn 4pm)
Dosbarthiad cyntaf y papurau enwebu	Y diwrnod nesaf ar ôl cyhoeddi hysbysiad etholiad (o 10am)
Dyddiad cau ar gyfer dosbarthu papurau enwebu	11 diwrnod (4pm)
Dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl	11 diwrnod (4pm)
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais drwy'r post newydd neu i newid neu ganslo pleidlais drwy'r post neu drefniant dirprwy sy'n bodoli	11 diwrnod (5pm)
Diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno cais cofrestru i gael ei gynnwys ar y gofrestr etholwyr er mwyn gallu pleidleisio yn yr etholiad	11 diwrnod
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy (nid dirprwy drwy'r post), ac eithrio argyfyngau meddygol	6 diwrnod (5pm)
Cyhoeddi hysbysiad etholiad ynghylch newid y gofrestr	5 diwrnod
Diwrnod y pleidleisio	0 (7am i 10pm)
Diwrnod olaf i anfon papurau pleidleisio drwy'r post yn lle rhai a ddifethwyd neu a gollwyd	Diwrnod y pleidleisio (5pm)

Tabl 1: Amserlen ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU

Digwyddiad	**Nifer y diwrnodau gwaith cyn pleidleisio (dyddiad cau os nad 12 canol nos)**
Diwrnod olaf ar gyfer ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy ar sail argyfwng meddygol	Diwrnod y pleidleisio (5pm)
Diwrnod olaf i wneud newidiadau i'r gofrestr i gywiro gwall clercyddol neu i weithredu penderfyniad llys (apêl gofrestru)	Diwrnod y pleidleisio (9pm)

2 Y gofrestr etholwyr

Gofynion cyfreithiol

2.1 Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rhoi'r gofrestru sy'n ofynnol ar gyfer agweddau gwahanol ar yr etholiad, yn cynnwys y fersiwn i'w defnyddio mewn enwebiadau a'r fersiwn ar gyfer diwrnod y pleidleisio, i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Ceir esboniad o'r fersiynau gwahanol isod.

2.2 Y gofrestr etholwyr a ddefnyddir ar y diwrnod pleidleisio yw'r fersiwn fel y mae ar y pumed diwrnod gwaith cyn y pleidleisio. Ni chyhoeddir unrhyw 'gofrestr etholiad' benodol; ond yn hytrach, caiff y gofrestr i'w defnyddio yn yr etholiad ei llunio o'r fersiwn ddiwethaf a gyhoeddwyd o'r gofrestr ac mae'n cynnwys unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r gofrestr ddiwethaf a gyhoeddwyd, gyda'r diwygiad terfynol yn cael ei wneud trwy'r hysbysiad newid a gyhoeddir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar y pumed diwrnod gwaith cyn y pleidleisio.

2.3 Gellir gwneud diwygiadau ar ôl yr adeg hon ond dim ond i gywiro gwall clercyddol neu i weithredu penderfyniad llys (apêl gofrestru). Yr amser olaf y gellir gwneud penderfyniad i ddiwygio'r gofrestr am y rhesymau hyn yw 9pm ar y diwrnod pleidleisio.

2.4 Gall unigolion gyflwyno ceisiadau i gofrestru hyd at yr unfed diwrnod gwaith ar ddeg cyn y pleidleisio.[5] Mae'n bwysig esbonio'r dyddiad cau i ymgeiswyr ac asiantau yn ystod briffiadau cyn yr etholiad.

2.5 Bydd gan berson hawl i bleidleisio mewn etholiad os yw eu cofrestriad **wedi dod i rym** erbyn neu ar y pumed diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Y dyddiad cau i unigolion wneud cais i gael eu cofrestru fydd 11 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio.

Gellir ychwanegu ceisiadau cofrestru di-enw i'r gofrestr mewn pryd ar gyfer yr etholiad os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn penderfynu gwneud hynny cyn cyhoeddi'r hysbysiad newid y gofrestr ar y pumed diwrnod gwaith cyn y bleidlais, am nad oes unrhyw broses wrthwynebu ar gyfer cofrestru di-enw.

Mae canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar brosesu ceisiadau cofrestru di-enw ar gael yn Rhan DD, 'Etholwyr categori arbennig', o lawlyfr y Comisiwn *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr.*

Y gofrestr i'w defnyddio ar gyfer enwebiadau

2.6 Mae'n rhaid i'r papurau enwebu gynnwys arwydd o gefnogaeth i'r ymgeisydd gan etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth; cyflawnir hyn gan ddim llai na 10 etholwr o'r fath yn llofnodi'r enwebiad trwy lofnodi'r papur enwebu. Dim ond enwebiad un ymgeisydd y gall pob etholwr ei lofnodi. Defnyddir y

[5] Adran 13B, RPA 1983, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 15, EAA.

gofrestr etholwyr i wirio a yw'r bobl hynny sy'n llofnodi enwebiad yn etholwyr cofrestredig, gan fod y rheolau yn nodi bod yn rhaid i'r papur enwebu hefyd roi rhif etholwr pob person sy'n ei lofnodi.[6]

2.7 Y fersiwn o'r gofrestr sydd i gael ei defnyddio i wirio enwebiadau yw'r un sydd mewn grym ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad yr etholiad.[7] Nid dyma'r fersiwn i'w defnyddio ar y diwrnod pleidleisio ond yn lle hynny dyma'r fersiwn fel y mae ar yr ail ddiwrnod ar ôl derbyn y gwrit. Gall person y mae'r gofrestr yn dangos ei fod o dan 18 oed ar adeg yr enwebiad ond llofnodi papur enwebu os byddant yn 18 oed ar y diwrnod pleidleisio neu cyn hynny.[8]

2.8 Mae'n bwysig bod y fersiwn gywir o'r gofrestr yn cael ei defnyddio wrth wirio bod y llofnodwyr yn ddilys. Dylid defnyddio copi caled o'r gofrestr gywir a'r system rheoli etholiadol i leihau'r perygl o golli llofnodwr sydd wedi llofnodi ail bapur. Wrth ddefnyddio copi caled y gofrestr, dylid ei farcio'n ffisegol pan gaiff yr enwebiadau eu cyflwyno'n ffurfiol.

Mae manylion llawn ymdrin â phapurau enwebu a'u pennu wedi eu disgrifio isod yn Adran 4, 'Y broses enwebu'.

Diwygio'r gofrestr etholiadol – gwallau clercyddol

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n penderfynu ar wallau clercyddol. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), fodd bynnag, gytuno gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar ddull ar gyfer cyfleu penderfyniadau ar wallau clercyddol a wneir ar y diwrnod pleidleisio.

2.9 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddiwygio'r gofrestr i gael ei defnyddio ar y diwrnod pleidleisio:

- i gywiro unrhyw wall clercyddol, neu
- i weithredu penderfyniad llys (apêl gofrestru)

pan fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi gwneud penderfyniad erbyn 9pm ar y diwrnod pleidleisio.[9]

2.10 Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau eraill i'r gofrestr etholwyr am unrhyw reswm.



I ystyried gwallau clercyddol ymhellach, gweler Rhan CH, 'Y bleidlais', Adran 3, 'Y gofrestr etholwyr' a chanllawiau y Comisiwn Etholiadol ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol, *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr,* Rhan CH, 'Addasiadau misol i'r gofrestr', Adran 4, 'Hysbysiad o newid'.

[6] Rheol 7(3), PER.
[7] Rheol 7(6)(a), PER.
[8] Rheol 7(6)(b), PER.
[9] Adran 13B, RPA 1983 a Rheoliad 36, RPR 2001.

Cofrestri gorsafoedd pleidleisio

2.11 Gellir argraffu cofrestri gorsafoedd pleidleisio unwaith y bydd hysbysiad newid yr etholiad wedi cael ei gyhoeddi, h.y. pum diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Fodd bynnag, bydd angen sefydlu gweithdrefnau i ymdopi ag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i gofrestri'r orsaf bleidleisio os bydd gwallau clercyddol yn cael eu nodi neu os hysbysir ynghylch penderfyniadau llys (apeliadau cofrestru) ar ôl i'r cofrestri gael eu hargraffu.

2.12 P'un a yw penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud cyn y diwrnod pleidleisio neu ar y diwrnod pleidleisio ei hun, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gytuno ar ddull o gyfleu'r wybodaeth berthnasol i Swyddogion Llywyddu.

Mae mwy o fanylion ar gyfleu diwygiadau a wnaed i'r gofrestr ar y diwrnod pleidleisio ar gael yn Rhan CH, 'Y bleidlais', Adran 3, 'Y gofrestr etholwyr'.

2.13 I gynorthwyo gyda'r gwaith o ddiwygio'r cofrestri dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi dalen ychwanegol ynghlwm wrth gofrestri'r orsaf bleidleisio i gofnodi unrhyw ddiwygiadau. Gall naill ai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu'r Swyddog Llywyddu wedyn ychwanegu'r holl ddiwygiadau a wnaed i'r gofrestr ac a hysbyswyd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar ôl y pumed diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio o ganlyniad i wallau clercyddol a phenderfyniadau'r llys yn ymwneud ag apeliadau cofrestru, i'r ddalen hon. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gysylltu â'u cyflenwyr i sicrhau bod eu systemau meddalwedd yn gallu creu cofrestri gyda thudalen gefn o'r fath wedi ei hatodi, neu fel arall dylent greu un eu hunain.

2.14 Ni ddylid cyhoeddi cofrestr ddigwygiedig fel mater o drefn cyn etholiad. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon copi o'r cofrestri fel y'u diwygiwyd gan unrhyw hysbysiad o newid a gyhoeddwyd ers y gofrestr ddiwygiedig ddiwethaf at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cynnwys yr hysbysiad diwethaf, a gyhoeddwyd ar y pumed diwrnod gwaith cyn y bleidlais.

2.15 Dylai pob Swyddog Llywyddu gael y gofrestr briodol o etholwyr ar gyfer eu gorsaf bleidleisio. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o gategorïau amrywiol yr etholwyr a nodir ar y gofrestr. Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod staff yr orsaf bleidleisio yn cael hyfforddiant digonol ynghylch pa etholwyr sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU. Mae *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio* y Comisiwn Etholiadol yn cynnig canllaw i holl farciau'r gofrestr. Mae'r categorïau a'r marciau cysylltiedig hefyd wedi eu cynnwys yn y *Canllaw cyflym i staff gorsaf bleidleisio* y Comisiwn.

Cyfuno

Os bydd y bleidlais mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad arall (fel etholiad llywodraeth leol) bydd yr etholfraint ar gyfer y ddwy bleidlais yn wahanol. Mae'n hanfodol bod staff gorsafoedd pleidleisio yn cael cyfarwyddyd i roi sylw penodol i'r llythrennau dynodi sydd wedi eu hargraffu wrth enwau etholwyr. Mae *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr: canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiado*l Rhan B, 'Hawl i gofrestru' yn rhoi mwy o wybodaeth ynghylch pwy sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau penodol. Mae holl lawlyfrau gorsafoedd pleidleisio a chanllawiau cyflym y Comisiwn yn cynnwys canllaw i farciau'r gofrestr.

Mynediad a chyflenwi

2.16 Mae gan bobl benodol hawl i dderbyn y gofrestr etholiadol lawn am ddim ac ar fformat electronig, oni bai bod cais yn cael ei dderbyn ymlaen llaw i'r gofrestr gael ei darparu fel copi wedi ei argraffu. Ceir manylion isod.[10]

Mae gwybodaeth fanwl am weld y gofrestr etholiadol a'i darparu ar gyfer ymgeiswyr ac eraill yn Rhan DD 'Mynediad a chyflenwad' o arweiniad y Comisiwn, *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr.*

Darparu'r gofrestr ar gyfer ymgeiswyr

2.17 Gall ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU ofyn am gopi o'r gofrestr lawn ar gyfer yr etholaeth gyfan neu ran o'r etholaeth fel y mae'n disgyn o fewn ardal gofrestru'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.[11]

2.18 Rhoddir ystyr y term ymgeisydd at y diben hwn mewn deddfwriaeth.[12] Mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU bydd gan berson hawl i gopi o'r gofrestr lawn ar y diwrnod y maent hwy, neu eraill:

- yn datgan eu bod yn ymgeisydd, neu
- yn cyflwyno eu papurau enwebu
-

pa un bynnag sydd **gynharaf**.

2.19 Fodd bynnag, y **cynharaf** y gall person ddod yn ymgeisydd at ddibenion cael y gofrestr yw dyddiad **diddymu'r Senedd.** Os caiff person ei ddatgan yn ymgeisydd cyn y dyddiad diddymu maent yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad diddymu.

2.20 Mae'n rhaid i ymgeiswyr wneud cais ysgrifenedig am y gofrestr.[13] Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi ffurflen i'r ymgeiswyr ei llofnodi er mwyn

[10] Rheoliad 102, RPR 2001; Rheoliad 101, RPR (Yr Alban) 2001.
[11] Rheoliad 108, RPR 2001; Rheoliad 107, RPR (Yr Alban) 2001.
[12] Adran 118A(3)(a) a (b), RPA 1983.

iddynt gael y gofrestr. Dylai'r ffurflen hon roi gwybodaeth yn ymwneud â'r defnydd cywir o ddata a dylai hefyd roi'r dewis i ymgeisydd ofyn am gopi papur neu ddata o'r gofrestr.

2.21 Cyn gynted ag y derbynnir y cais ysgrifenedig a bod y person yn neu wedi dod yn ymgeisydd fel y diffinnir uchod, mae'n rhaid iddynt gael copi o'r gofrestr cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol fel y gallant ddefnyddio'r gofrestr i'w cynorthwyo i lenwi eu papur enwebu, yn ogystal ag ymgyrchu.

2.22 Ni all y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) atal y gofrestr nes bod ymgeisydd yn cyflwyno papur enwebu. Ni all fod angen unrhyw flaendal neu daliad er mwyn darparu cofrestr.

Darparu'r gofrestr ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig

2.23 Gall plaid wleidyddol gofrestredig ofyn am gopi o'r gofrestr lawn ar unrhyw adeg trwy gydol y flwyddyn.[14] Nid yw eu hawl i dderbyn copi o'r gofrestr yn dibynnu pryd y cynhelir etholiadau neu lle mae ganddynt hanes o sefyll.

Archwilio'r gofrestr

2.24 Mae'n rhaid bod copi o'r gofrestr lawn ar gael i'w harchwilio, o dan oruchwyliaeth, yn swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ac unrhyw le arall, os o gwbl, sydd yn addas i'w archwilio yn yr ardal gofrestru.[15] Dim ond nodiadau â llaw y gall unrhyw berson sy'n archwilio'r gofrestr eu gwneud i gofnodi unrhyw ran ohoni ac ni ellir defnyddio'r nodiadau hyn at ddibenion marchnata. Gellir defnyddio'r nodiadau â llaw at ddibenion etholiadol. Dylai pawb sy'n archwilio'r gofrestr fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau cyn cael gweld y gofrestr.

[13] Rheoliad 102(2), RPR 2001.
[14] Rheoliad 106, RPR 2001; Rheoliad 105, RPR (Yr Alban) 2001.
[15] Rheoliad 43, RPR 2001.

3 Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau

Briffiadau

3.1 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnal briffiadau ar gyfer ymgeiswyr a'u hasiantau, os yn hysbys, unwaith bydd yr etholiad wedi cael ei gyhoeddi i roi gwybodaeth am faterion yn cynnwys y broses enwebiadau, amserlen yr etholiad, y pleidleisio, pleidleisio drwy'r post a threfniadau cyfrif ac unrhyw faterion lleol penodol. Gellid darparu'r briffiadau ar sail unigol i bob person â diddordeb, neu gellid eu darparu i grŵp neu grwpiau o ymgeiswyr ac asiantau. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddewis cynnal sesiwn friffio arall ar ôl cau'r enwebiadau unwaith bydd y rhestr o ymgeiswyr wedi cael ei chadarnhau er mwyn cynnwys pethau fel y trefniadau ar gyfer agor pleidleisiau post a'r cyfrif yn fanylach.

3.2 Mae'n bwysig bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi briffiadau i bawb sydd wedi mynegi diddordeb yn sefyll yn yr etholiad a dylai'r briffiadau ystyried efallai y bydd yna bobl heb lawer o wybodaeth os o gwbl am reolau a gweithdrefn etholiad neu sydd heb fod yn gysylltiedig ag etholiadau ers peth amser.

Er mwyn cwrdd â safon perfformiad 7 – cyfathrebu gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantau, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) allu dangos eu bod wedi rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantau trwy sesiynau briffio a chanllawiau ysgrifenedig ar y broses enwebiadau, yn ogystal â'r prosesau agor pleidleisiau post a'r cyfrif.

3.3 Dylai'r holl friffiadau amlygu pwysigrwydd dilyn rheolau'r etholiad. Yn arbennig, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) roi briffiad ar y broses enwebu yn cynnwys dyddiadau cau, rheolau cyflwyno, defnyddio enwau cyffredin, yr opsiynau wrth lenwi'r ffurflen cyfeiriad cartref, defnyddio enwau pleidiau a disgrifiadau cofrestredig, a'r dulliau ar gyfer cyflenwi'r blaendal o £500. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd amlinellu unrhyw drefniadau diogelwch sydd wedi eu sefydlu mewn ymgynghoriad â'r heddlu.[16]

3.4 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnwys y ffaith bod yn rhaid dilyn rheolau ar ymgyrchu gan ymgeisydd, yn cynnwys uchafswm y gwariant a'r gofyniad i ychwanegu argraff ar ddeunydd penodol. Dylid hysbysu'r ymgeiswyr i ddarllen canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar y materion.

3.5 Mae'r Comisiwn wedi llunio canllaw ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU, a dylid rhoi hwn i'r holl ymgeiswyr a phartïon â diddordeb a phleidiau.

[16] Adran 17, EAA.

Mae *Canllaw i ymgeiswyr ac asiantau* y Comisiwn ar gael ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections. Bydd copïau caled ar gael hefyd i'w harchebu oddi wrth ein dosbarthwr.

3.6 Mae Cod ymarfer ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a chanfaswyr yn ymwneud ag ymdrin â cheisiadau pleidleisio post a phapurau pleidleisio drwy'r post. Mae hwn ar gael yn y *Canllaw i ymgeiswyr ac asiantau* y Comisiwn ac arlein ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/integrity-guidance/electoral-events, a dylid tynnu sylw'r ymgeisydd ato.

3.7 Gellid trafod y trefniadau ar gyfer agor pleidleisiau post a'r cyfrif mewn sesiwn friffio bellach ar ôl y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau pan fydd yr holl ymgeiswyr yn hysbys, yn enwedig os oes yna ymgeiswyr neu asiantau na wnaeth fynychu briffiadau cyn yr enwebiadau.

Pecyn enwebu

3.8 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) baratoi pecyn enwebu ar gyfer unrhyw berson sy'n mynegi diddordeb yn sefyll mewn etholiad i Senedd y DU, a dylai hefyd ddarparu hwn ar gyfer unrhyw berson sy'n mynychu'r cyfeiriad ar gyfer dosbarthu enwebiadau ac sy'n gofyn am un.

3.9 Dylai'r pecyn enwebu gynnwys:

- papur enwebu
- ffurflen cyfeiriad cartref
- caniatâd i enwebu
- ffurflen i'r ymgeisydd hysbysu ynghylch penodiad asiant
- tystysgrif awdurdodi ar gyfer person cymwys i alluogi'r ymgeisydd i sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig
- ffurflen i ymgeisydd plaid wleidyddol wneud cais am arwyddlun
- copi o Ganllawiau y Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau
- allbrint neu ddolen gwefan i ganllawiau y Comisiwn ar wariant etholiad ymgeisydd
- manylion sut y dylid talu'r blaendal, yn cynnwys manylion llawn y dulliau talu derbyniol
- manylion sut i gael gafael ar y gofrestr etholiadol, y rhestr o etholwyr tramor, a'r rhestri o bleidleiswyr absennol, yn cynnwys manylion cyswllt y Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol yn yr etholaeth
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall



Mae canllawiau y Comisiwn ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau ac ar wariant etholiad ar gael yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/those-we-regulate/candidates-and-agents. Bydd copïau caled hefyd ar gael i'w harchebu oddi wrth ein dosbarthwr.

Mae'r Comisiwn wedi creu patrymlun o bapurau enwebu sydd ar gael yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Anghenion mynediad i ymgeiswyr

3.10 Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried y gall fod gan ymgeiswyr ac asiantau anghenion mynediad penodol ar gyfer yr etholiad, ac felly gallai fod angen cynhyrchu unrhyw ganllawiau mewn print mawr neu ar fformat arall, fel Braille neu sain, neu mewn ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg. Gellir ond cynhyrchu papurau enwebu yn Saesneg, neu, yng Nghymru, yn Gymraeg neu Saesneg.

4 Y broses enwebu

Cyhoeddi hysbysiad yr etholiad

4.1 Mae cyhoeddi hysbysiad yr etholiad yn cychwyn y cyfnod enwebu, ond ni ellir derbyn papurau enwebu tan y diwrnod yn dilyn cyhoeddi hysbysiad yr etholiad. Ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU, mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiad yr etholiad heb fod yn hwyrach na 4pm ar yr ail ddiwrnod ar ôl derbyn y gwrit.[17] Gellir cyhoeddi hysbysiad yr etholiad ar yr un diwrnod ag y derbynnir y gwrit a dylid ei gyhoeddi cyn gynted ag sy'n ymarferol i ganiatáu cymaint o amser â phosibl ar gyfer enwebiadau.

Diffiniad 'cyhoeddi'
Mae cyhoeddi yn golygu, fel isafswm, postio mewn man amlwg yn yr etholaeth (e.e. swyddfeydd yr awdurdod lleol, hysbysfyrddau ac adeiladau cyhoeddus eraill). Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd ddefnyddio dulliau eraill, yn cynnwys gwefan yr awdurdod lleol, i hwyluso mynediad haws i'r hysbysiadau ar gyfer unrhyw bersonau â diddordeb, yn cynnwys pobl anabl. Dylid hefyd creu dolen o dudalen flaen gwefan yr awdurdod lleol i'r tudalennau hynny sy'n cynnwys gwybodaeth am broses yr etholiad.

Mae'r diffiniad cyhoeddi hwn yn berthnasol i'r holl hysbysiadau sy'n cael eu creu yn yr etholiad, yn cynnwys:

- hysbysiad yr etholiad
- datganiad ynghylch y personau a enwebwyd (yn cynnwys hysbysiad o'r bleidlais a lleoliad y gorsafoedd pleidleisio)
- hysbysiad asiantau
- hysbysiad o'r canlyniad

Dylai'r holl hysbysiadau a gyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnwys argraff.

4.2 Mae hysbysiad yr etholiad yn hysbysiad statudol ac er nad oes unrhyw fformat penodol mae'n rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth ganlynol:[18]

- y man a'r adegau y gellir dosbarthu'r papurau enwebu, ac y gellir cael y papurau enwebu yn y man hwnnw ac ar yr adegau hynny
- dyddiad y bleidlais os caiff yr etholiad ei wrthwynebu
- y trefniadau ar gyfer talu'r blaendal trwy drosglwyddo arian yn electronig (dylai hefyd nodi bod arian parod a drafft banc yn dderbyniol)
- y dyddiad y mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer pleidleisiau absennol (yn cynnwys dirprwyon brys) gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn bod yn effeithiol ar gyfer yr etholiad

[17] Rheol 1, PER.
[18] Rheol 5, PER.

4.3 Wrth roi cyfeiriad ar gyfer dosbarthu papurau enwebu, dylid rhoi union gyfeiriad, yn cynnwys rhif unrhyw ystafell. Bydd hyn yn osgoi unrhyw amheuaeth ar gyfer unrhyw enwebiadau a gyflwynir yn agos at y dyddiad cau.

Y gofrestr pleidiau gwleidyddol

I gael gwybodaeth ddiweddar am bleidiau gwleidyddol, disgrifiadau cofrestredig ac arwyddluniau cofrestredig, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) edrych ar y gofrestr pleidiau gwleidyddol ar wefan y Comisiwn Etholiadol yn: http://registers.electoralcommission.org.uk/regulatory-issues/regpoliticalparties.cfm.

4.4 Hyd yn oed os yw'r blaid gofrestredig yn hysbys iawn, mae'n hanfodol edrych ar y gofrestr i gael union enw'r blaid, arwyddluniau a disgrifiadau a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn gan y blaid honno ar gyfer yr etholiad penodol hwn.

4.5 Yn unol â PPERA gall dileu neu ddiwygio unrhyw ddisgrifiadau cofrestredig ddod i rym hyd at ac yn cynnwys y diwrnod cyn dyddiad cyhoeddi hysbysiad yr etholiad (noder: **nid** dyma'r diwrnod olaf y bydd cyhoeddi hysbysiad yr etholiad yn bosibl ond diwrnod **gwirioneddol** cyhoeddi) ar gyfer unrhyw etholiad. Ar ôl y pwynt hwnnw, nid yw unrhyw newidiadau neu ddileadau i unrhyw un o ddisgrifiadau'r blaid yn berthnasol ar gyfer yr etholiad hwnnw.[19] Gall pleidiau gwleidyddol newid eu manylion cofrestredig eraill, yn cynnwys enw ac arwyddluniau'r blaid, ac ychwanegu unrhyw ddisgrifiad newydd os oeddent wedi cofrestru llai na 12 ar unrhyw adeg nes bod yr enwebiadau'n cau.

4.6 Bydd canllawiau pellach ynglŷn â'r ffordd y bydd newidiadau a wnaed i'r gofrestr pleidiau gwleidyddol trwy gydol cyfnod yr etholiad yn ymddangos ar wefan y Comisiwn, bydd yn cael ei ddarparu unwaith y gelwir etholiad cyffredinol Seneddol y DU.

Sut y caiff disgrifiadau ac enwau pleidiau eu defnyddio
Pan fydd ymgeisydd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gallant ddefnyddio naill ai enw'r blaid neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid.

Mae'n rhaid i dystysgrif awdurdodi gan y blaid alluogi'r ymgeisydd i ddefnyddio naill ai disgrifiad penodol neu enw'r blaid, neu gall alluogi'r ymgeisydd i ddewis disgrifiad cofrestredig neu enw'r blaid.

Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod y disgrifiad neu enw'r blaid ar y papur enwebu wedi ei gofrestru trwy gyfeirio at gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol a geir ar ein gwefan.

[19] Adran 30(6A), PPERA.

Mae'n rhaid datgan yr enw neu'r disgrifiad o'r blaid a ddewiswyd ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ac mae'n rhaid ei argraffu ar y papurau pleidleisio.

Ceir manylion llawn pryd y gellir defnyddio disgrifiadau ac enwau pleidiau a'r ffordd y cânt eu cymhwyso o Baragraff 4.73.

Os oes gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) unrhyw ymholiadau am gofrestru pleidiau gwleidyddol, dylai gysylltu â swyddfa ddatganoledig leol y Comisiwn neu Swyddfa ranbarthol Lloegr.

Cymwysterau ymgeisyddiaeth

4.7 Gall ymgeiswyr fynd at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i ofyn am gyngor ynghylch eu cymhwysedd i sefyll am etholiad i Senedd y DU neu i holi am unrhyw anghymwysiadau a allai effeithio ar eu hymgeisyddiaeth.

4.8 Mae materion cymhwysedd neu anghymhwysedd ar gyfer yr ymgeisydd yn unig ac nid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Dylid cyfeirio'r ymgeisydd i *Ganllawiau i ymgeiswyr ac asiantau* y Comisiwn. Os oes ganddynt unrhyw bryderon pellach, dylid cynghori'r ymgeisydd/asiant i gael cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain.

Paratoi ffurflen i'w llofnodi

4.9 Mae'n ofynnol ar Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) baratoi papur enwebu i'w lofnodi os yw'r etholwr yn gofyn am hynny.[20]

Ffurflenni y gellir eu defnyddio i enwebu

4.10 Gall ymgeiswyr ddefnyddio pa set bynnag o ffurflenni y maent yn dymuno ar gyfer eu henwebiad cyhyd â bod y papurau a ddefnyddir yn cynnwys yr holl wybodaeth a'r llofnod sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

4.11 Nid oes rhaid i'r ymgeiswyr ddefnyddio ffurflen enwebu, ffurflen cyfeiriad cartref na ffurflen caniatâd i enwebu a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).[21]

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu set o ffurflenni y gall Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) eu defnyddio. Mae'r rhain ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

[20] Rheol 7(4)(b), PER.
[21] Rheol 6, PER.

Dosbarthu papurau enwebu

4.12 Mae'n rhaid dosbarthu papurau enwebu i'r lleoliad a nodir ac ar yr adegau a'r dyddiadau a nodir ar hysbysiad yr etholiad.

4.13 Dylai fod arwyddion clir o fynedfa'r adeilad i'r ystafell sydd wedi ei neilltuo ar gyfer dosbarthu. Dylai'r llwybr hwn, neu ddewis amgen gydag arwyddion priodol, fod yn gwbl hygyrch.

4.14 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu Ddirprwy a benodir, fod yn bresennol yn y man ar gyfer enwebiadau ar gyfer yr holl gyfnod y mae'r enwebiadau ar agor (h.y.10am i 4pm ar y diwrnodau perthnasol) ac yn ystod y cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau.[22]

4.15 Dim ond y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff ddylai ymdrin ag enwebiadau. Dylai staff yr awdurdod lleol, fel staff y dderbynfa, gael manylion yr hyn y dylid ei wneud os yw person yn ceisio dosbarthu papur enwebu iddynt hwy, er enghraifft egluro na ddylent ymdrin â phapurau enwebu ac ni ddylent gynnig eu dosbarthu ond dylent eu cyfeirio i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Adegau y gellir dosbarthu papurau enwebu

4.16 Mae'n rhaid dosbarthu papurau enwebu rhwng 10am a 4pm. Y diwrnod cyntaf y gellir dosbarthu papurau enwebu yw'r diwrnod ar ôl cyhoeddi hysbysiad yr etholiad; dylid nodi'r dyddiad hwn yn hysbysiad yr etholiad.

4.17 Y terfyn amser ar gyfer dosbarthu papurau enwebu, yn cynnwys yr holl ddogfennau eraill y mae'n ofynnol eu dosbarthu erbyn cau'r enwebiadau, yw 4pm, 11 diwrnod gwaith cyn y pleidleisio. **Ni ellir** ymestyn y terfyn amser hwn am unrhyw reswm o gwbl.

4.18 Pennir bod y dosbarthu wedi ei gyflawni pan fydd y papurau enwebu wedi cael eu rhoi yn gorfforol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu Ddirprwy a benodir yn y lle y nodir yn hysbysiad yr etholiad.

4.19 Nid oes angen apwyntiad i ddosbarthu papur enwebu, ond gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried sefydlu system apwyntiadau i'w galluogi i gynnig 'gwiriadau answyddogol' ar y papurau enwebu cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol. Rhoddir sylw pellach i fater gwiriadau anffurfiol o dan 'Gwiriadau anffurfiol' isod.

4.20 Wrth eu derbyn, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu ei staff gymeradwyo'r dogfennau gyda'r dyddiad a'r amser dosbarthu.

Pwy all ddosbarthu'r papurau enwebu?

4.21 Dim ond i'r bobl ganlynol y gellir dosbarthu papurau enwebu:

[22] Rheol 10, PER.

- yr ymgeisydd
- asiant etholiad yr ymgeisydd (gellir dosbarthu hysbysiad penodi asiant ar yr un pryd â'r papur enwebu)
- y cynigiwr neu'r eilydd fel y nodir ar y papur enwebu[23]

4.22 Mae'n rhaid i un o'r bobl a restrir uchod ddosbarthu'r papurau enwebu mewn person. Os cânt eu dosbarthu gan unrhyw un arall, neu os na ellir pennu pwy sydd wedi dosbarthu'r papurau enwebu, ni ddylid eu derbyn.

4.23 Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer postio, ffacsio na defnyddio unrhyw ddull electronig arall o ddosbarthu, ac felly ni ddylid derbyn unrhyw enwebiadau a dderbynnir yn y ffordd hon. Mae'r unig eithriad i hyn yn digwydd pan fydd ymgeisydd dramor, ac yn yr achos hwn gellir anfon eu **cydsyniad i'r enwebu** yn electronig (mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn 'Cydsyniad yr ymgeisydd i'r enwebu', isod).

4.24 Ystyrir bod ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys dim ond os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), cyn 4pm ar y dyddiad cau ar gyfer dosbarthu papurau enwebu, wedi derbyn y blaendal o £500 a'r ffurflenni canlynol wedi eu cwblhau:

- papur enwebu
- ffurflen cyfeiriad cartref
- cydsyniad i'r enwebu
- tystysgrif awdurdodi gan blaid os yw'r ymgeisydd yn sefyll dros blaid wleidyddol

4.25 Bydd yr ymgeisydd yn parhau wedi ei enwebu'n ddilys oni bai a hyd nes bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn pennu bod eu henwebiad yn annilys neu os byddant yn tynnu'n ôl erbyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl.

4.26 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn ar ei olwg mai'r person y mae'n honni ydyw yw'r person sy'n dosbarthu papur enwebu. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ofyn i'r person sy'n dosbarthu'r papurau enwebu ddangos prawf modd adnabod.

Presenoldeb wrth ddosbarthu papurau enwebu

4.27 Dim ond rhai pobl sydd â hawl i fod yn bresennol wrth ddosbarthu papurau enwebu ar wahân i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff.

4.28 Nid yw'r bobl a restrir isod wedi eu cyfyngu i fod yn bresennol ar gyfer enwebiad eu hymgeisydd eu hunain yn unig ond gallant archwilio a gwrthwynebu unrhyw enwebiad neu unrhyw bapurau enwebu sy'n cael eu dosbarthu hyd nes y penderfynir bod enwebiad eu hymgeisydd eu hunain yn annilys, maent yn tynnu eu henwebiad yn ôl, neu os yw'r dyddiad cau ar gyfer enwebu wedi mynd heibio, pa un bynnag sydd gyntaf. [24]

[23] Rheol 6(1), PER.
[24] Rheol 11(3), PER.

4.29 Dyma'r bobl gymwys: [25]

- ymgeisydd
- asiant etholiad
- person a enwir gan ymgeisydd sy'n gweithredu fel eu hasiant eu hunain i fynychu yn lle asiant etholiad
- cynigiwr neu eilydd

4.30 Os caiff mwy nag un papur enwebu ei gyflwyno ar gyfer ymgeisydd, dim ond y cynigiwr a'r eilydd o'r un sy'n cael ei ddewis fel y 'papur enwebu dewisol' sydd â hawl i fynychu dosbarthu papurau enwebu (gweler 'Papurau enwebu lluosog' isod). [26] Os nad oes dewis o'r fath wedi cael ei wneud gan yr ymgeisydd, bydd hawl yn awtomatig gan gynigiwr ac eilydd y papur enwebu a ddosbarthwyd gyntaf.[27]

4.31 Yn ogystal, mae mwy o bobl sydd â hawl i fynychu enwebu ymgeiswyr ond ni allant wrthwynebu unrhyw enwebiad. Mae'r bobl hyn fel a ganlyn: [28]

- un person a benodir gan bob un o'r ymgeiswyr i fynychu ac nad oes ganddynt eisoes hawl i fynychu
- Cynrychiolwyr y Comisiwn[29]

4.32 Nid oes gan unrhyw berson arall hawl i fynychu dosbarthu papurau enwebu.[30] Nid yw'r papurau enwebu yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio; maent yn agored i'w harchwilio gan y bobl a nodir yn yr adran hon yn unig.

Gwiriadau anffurfiol

4.33 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnig y cyfleuster o wirio eu papurau enwebu yn anffurfiol cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol i bob ymgeisydd ac asiant. Gall hyn helpu i ddatgelu unrhyw wallau wrth lenwi'r ffurflenni enwebu. Nid oes unrhyw ofyniad i ddarparu gwiriad anffurfiol, ond dylai'r holl ymgeiswyr ac asiantau gael cyfle cyfartal i drefnu archwiliad anffurfiol os bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu. Mae gwiriadau anffurfiol wedi eu cynllunio i gynorthwyo'r ymgeisydd a'r asiant i gymryd rhan yn y broses etholiadol fel nad yw gwiriadau a wnaed gan ymgeiswyr ac asiantau, os yn bosibl, yn gwarafun y cyfle i etholwyr bleidleisio o blaid yr ymgeisydd hwnnw.

4.34 Dylid nodi bod gwiriadau anffurfiol yn ofyniad ar gyfer cwrdd â safon perfformiad 7 – cyfathrebu gwybodaeth i ymgeiswyr ac asiantau.

4.35 Wrth gynnal gwiriad anffurfiol dylid egluro bod y papurau enwebu'n cael eu harchwilio'n anffurfiol. Gall y rheiny nad ydynt yn dosbarthu papurau

[25] Rheol 11(1), PER.
[26] Rheol 11(2), PER.
[27] Rheol 11(2)(b), PER.
[28] Rheol 11(1), PER.
[29] Er bod gan gynrychiolwyr y Comisiwn hawl i fynychu, nid oes gan arsylwyr achrededig yr un hawl.
[30] Rheol 11(1), PER.

enwebu yn ffurfiol ddod â hwy i mewn a bod yn bresennol yn y gwiriad **anffurfiol** ond ni allant eu dosbarthu'n ffurfiol nac edrych ar unrhyw enwebiad arall.

4.36 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) egluro na allant fod yn gyfrifol os ydynt yn methu nodi gwall neu hepgoriad yn ystod y gwiriad ffurfiol – cyfrifoldeb yr ymgeiswyr a'r asiantau yw cwblhau'r ffurflenni enwebu yn gywir.

4.37 Dylai fod yn glir pan fydd y papurau enwebu'n cael eu cyflwyno'n ffurfiol. Yn ystod y cam hwn dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gymeradwyo'r papur gyda'r dyddiad a'r amser dosbarthu ac ar ôl hyn ni ddylid newid, dileu nac ychwanegu at y gwaith papur ar wahân i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ymarfer ei bŵer i gywiro mân wallau.

4.38 Wrth gynnal gwiriadau anffurfiol, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol):

- wirio i weld bod pob eitem y mae'n ofynnol ei llenwi wedi cael ei llenwi.
- gwirio bod y disgrifiad ar gyfer ymgeisydd (un nad yw'n 'Independent' neu'n 'Annibynnol') yn cyd-fynd â'r enw neu'r disgrifiad ar wefan y Comisiwn a'i fod wedi ei awdurdodi gan y dystysgrif awdurdodi.
- gwirio i weld a yw'r llofnodwyr a restrir eisoes wedi llofnodi papur enwebu sydd wedi cael ei gyflwyno yn **ffurfiol**. Os ydynt, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynghori y byddai'r papur enwebu yn annilys pe byddai'n cael ei ddosbarthu yn ffurfiol.
- os oes mwy nag un papur enwebu wedi cael ei ddosbarthu, gofyn pa un fydd y papur enwebu dewisol ac a ydynt yn dymuno i'r llofnodwyr ar gyfer hyd at ddau bapur enwebu arall gael eu cyhoeddi ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd.
- mynd trwy'r dulliau derbyniol ar gyfer cyflwyno'r blaendal ac esbonio sut y caiff ei ddychwelyd os nad yw'n cael ei fforffedu.
- atgoffa'r person sy'n dosbarthu'r papur y byddai'n drosedd rhoi datganiad anwir yn y papurau enwebu.
- cyhyd â bod dim problemau amlwg yn ymwneud â'r papur enwebu ac os yw'r person yn un o'r bobl a awdurdodir i ddosbarthu papurau enwebu yn ffurfiol, dylent gael y cyfle i gyflwyno'r papurau enwebu yn ffurfiol.

4.39 Os yw'r papurau enwebu'n cael eu dosbarthu'n ffurfiol, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) eu cymeradwyo gyda'r amser a'r dyddiad dosbarthu.

4.40 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddatgan na allant roi unrhyw arwydd ar lafar nac yn ysgrifenedig bod papur enwebu yn ddilys nes bod datganiad ynghylch y personau a enwebwyd yn cael ei gyhoeddi ond os penderfynir bod y papur enwebu'n annilys y byddant yn ceisio cysylltu â'r ymgeisydd a'r asiant trwy bob dull posibl.

Ffurf enwebu

Papur enwebu

4.41 Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gael ei enwebu ar bapur enwebu ar wahân ar y ffurf a nodir yn yr atodiad i reolau'r etholiad neu ar ffurf i'r un perwyl.[31] Mae'r ffurflenni wedi cael eu newid yn unol â deddfwriaeth[32] ers etholiad cyffredinol Seneddol diwethaf y DU ac felly dylid adolygu pob ffurflen a gynhyrchwyd yn flaenorol gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu set o bapurau enwebu. Dylai'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddefnyddio'r ffurflenni fel patrymlun ar gyfer eu ffurflenni eu hunain.

Mae set y Comisiwn o bapurau enwebu ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Manylion am bapurau ar gyfer enwebu

Enw'r ymgeisydd

4.42 Mae'n rhaid rhestru enwau llawn yr ymgeisydd, gyda'u cyfenw gyntaf wedi ei ddilyn gan bob enw arall yn llawn. Yn ogystal, os bydd ymgeisydd yn defnyddio cyfenw neu enw cyntaf gwahanol yn gyffredin, gallant wneud cais i ddefnyddio eu henw(au) cyffredin yn lle eu henwau llawn ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, hysbysiad y bleidlais a'r papur pleidleisio.[33]

4.43 Mae *Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau* y Comisiwn yn cynghori ymgeiswyr sut i lenwi'r papur enwebu ac yn esbonio'r ffordd y byddai'r cyfuniadau gwahanol o'r blychau enwau a ddefnyddir yn gyffredin wedi eu llenwi neu eu gadael yn wag yn effeithio ar y ffordd y mae eu henw yn ymddangos ar y papur pleidleisio.

4.44 Nodir nifer o enghreifftiau o gyfuniadau amrywiol, er nad ydynt yn gynhwysfawr, yn Nhabl 1 isod.

[31] Rheol 6(1)(c), PER.
[32] Adran 24, PPEA.
[33] Rheol 6(2A), PER.

Tabl 1: Opsiynau enwau'r ymgeisydd

Cyfenw gwirioneddol yr ymgeisydd	Enwau eraill yr ymgeisydd yn llawn	Enw(au) cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin	Cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin	Enw i fynd ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyda'r hysbysiadpleidleisio	Enw i fynd ar y papurau pleidleisio
Etholwr	Ann	Elsie	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Elsie	PLEIDLEISIWR Elsie Pleidleisiwr
Etholwr	Ann	[Gwag]	Pleidleisiwr	Pleidleisiwr, Ann	PLEIDLEISIWR Ann Pleidleisiwr
Etholwr	Ann	Elsie	[Gwag]	Etholwr, Elsie	ETHOLWR Elsie Etholwr
Etholwr	Ann	Dim un i'w ddefnyddio	Archseren	Archseren	ARCHSEREN

4.45 Os oes angen un enw yn unig ar ymgeisydd (e.e. Archseren) yna dylid nodi hyn yn glir ar y ffurflen – gyda blychau'r 'cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin' a'r 'enw(au) cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin' heb eu defnyddio wedi eu marcio fel uchod neu bod croes drwyddynt. Os yw naill ai'r blwch 'enw(au) cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin' neu'r 'cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin' yn cael ei adael yn wag, yna bydd enw cyntaf neu gyfenw'r ymgeisydd, yn dibynnu pa flwch enw a ddefnyddir yn gyffredin sydd wedi ei adael yn wag, yn mynd ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, hysbysiad y bleidlais ac, yn y pen draw, y papur pleidleisio.

4.46 Pan fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn credu bod defnyddio unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu os yw'n anweddus neu'n dramgwyddus, nid yw'n ofynnol arnynt ddangos yr enw hwnnw ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid defnyddio enwau llawn yr ymgeisydd ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, hysbysiad y bleidlais a'r papur pleidleisio, ac mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ysgrifennu at yr ymgeisydd yn nodi'r rhesymau dros wrthod caniatáu defnyddio'r enw a ddefnyddir yn gyffredin.

4.47 Nid yw unrhyw benderfyniad i wrthod defnyddio'r enw a ddefnyddir yn gyffredin yn gwneud yr enwebiad yn annilys; yr effaith y caiff yw y bydd enw llawn yr ymgeisydd yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, hysbysiad y bleidlais a'r papur pleidleisio. Dylid gwneud y ffaith hon yn glir i'r ymgeiswyr a'r asiantau, yn enwedig os yw'r enw a ddefnyddir yn gyffredin yn cael ei wrthod.

4.48 Nid yw'r ffurflen enwebu yn cynnwys unrhyw ofod ar gyfer rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid. Felly, er na fyddai cynnwys unrhyw ragddodiad neu ôl-ddodiad fel rhan o'r enw gwirioneddol yn gwneud y papur enwebu yn annilys, ni ddylid eu trosglwyddo i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) weithredu fel pe na bai'r rhagddodiaid neu'r ôl-ddodiaid ar y papur enwebu a pheidio â'u hychwanegu i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd pan fydd hwnnw'n cael ei lunio.

4.49 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) anfon nodyn i'r ymgeisydd a'r asiant mewn achosion o'r fath ac esbonio na fydd y rhagddodiaid neu'r ôl-ddodiaid hyn yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd na'r papur pleidleisio ond nad yw eu henwebiad fel ymgeisydd wedi cael ei effeithio.

4.50 Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol os yw ymgeisydd posibl wedi cynnwys rhagddodiad, fel Dr neu Syr, yn y blwch enw(au) cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin. Yn yr achos hwn, dylid dwyn y rhagddodiad ymlaen i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papur pleidleisio. Gellir ond gwrthod enw a ddefnyddir yn gyffredin sydd yn cynnwys rhagddodiad os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn credu ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu os yw'n anweddus neu'n dramgwyddus.

4.51 Gall person sy'n hysbys yn ôl ei deitl ddefnyddio hwn yn lle eu cyfenw. Er enghraifft, gall ymgeisydd sydd â'r enw Jo Smith mewn gwirionedd, ond sydd â theitl etifeddol, sef y Farwnes Purple, ddefnyddio'r enw Jo Purple fel pe bai dyna ei henw gwirioneddol.[34] Yn yr achos hwn gall yr ymgeisydd ddefnyddio'r enw Jo Purple fel ei henw gwirioneddol heb fod angen llenwi'r blychau enwau a ddefnyddir yn gyffredin.

4.52 Weithiau, gall ymgeisydd posibl gyflwyno papur enwebu gydag enw penchwiban neu sy'n swnio'n annhebygol gan honni mai hwn yw eu henw llawn. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn unrhyw bapur enwebu o'r fath fel y mae'n ymddangos, waeth pa mor anarferol yw'r enw, oherwydd gall fod yn wir mai dyma enw gwirioneddol yr ymgeisydd. Hyd yn oed os oes gan Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wybodaeth bersonol nad enw go iawn yr ymgeisydd yw'r enw ar y papur enwebu, nid oes ganddynt unrhyw bwerau i'w wrthod ar y sail hon.

4.53 Nid yw'r penderfyniad ynghylch addasrwydd enwau a ddefnyddir yn gyffredin yn digwydd hyd nes bod yr enwebiadau yn cau. Felly ni ddylid rhoi unrhyw arwydd ynghylch tebygolrwydd derbyn enw a ddefnyddir yn gyffredin cyn yr adeg honno.

4.54 Caiff derbyn enwebiad fel un dilys ei ddangos trwy gyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Ni ddylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) anfon unrhyw lythyrau neu hysbysiadau i unrhyw ymgeisydd neu asiant yn datgan bod eu henwebiad yn ddilys, yn cynnwys a yw eu henw a ddefnyddir yn gyffredin wedi cael ei dderbyn. Nid yw hyn yr un peth ag

[34] Nodyn 2, Ffurf papur enwebu, Atodiad o'r Ffurflenni, PER.

mewn etholiadau llywodraeth leol, lle mae'n rhaid anfon hysbysiad o ddilysrwydd.

4.55 Mae defnyddio enwau a ddefnyddir yn gyffredin ond yn berthnasol i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, hysbysiad y bleidlais a'r papurau pleidleisio. Mae'n rhaid i enw gwirioneddol yr ymgeisydd ymddangos ar unrhyw ddogfennau sy'n ofynnol i ddangos enw'r ymgeisydd, fel yr argraff a ffurflenni costau'r ymgeisydd, a dylid defnyddio'r enw gwirioneddol wrth gyhoeddi'r canlyniadau. Fodd bynnag, os defnyddiodd yr ymgeisydd y rheol enw a ddefnyddir yn gyffredin, dylid defnyddio eu henw a ddefnyddir yn gyffredin gyda'u henw gwirioneddol wrth gyhoeddi'r canlyniad.

Cyfeiriad cartref yr ymgeisydd

4.56 Ni ddylai'r papur enwebu a ddarparwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnwys gofod ar gyfer cyfeiriad yr ymgeisydd.[35] Yn lle hynny, mae'n rhaid rhoi cyfeiriad cartref llawn yr ymgeisydd ar ffurflen cyfeiriad cartref ar wahân.[36]

4.57 Nid yw papur enwebu yn annilys os yw'n cynnwys yn ychwanegol cyfeiriad cartref yr ymgeisydd (h.y. pan nad yw'r ymgeisydd yn defnyddio ffurflen gyfredol neu'n creu ffurflen eu hunain). Fodd bynnag, mae'n rhaid dosbarthu ffurflen cyfeiriad cartref yn ogystal â'r papur enwebu er mwyn i'r enwebiad fod yn ddilys.[37]

Llofnodwyr

4.58 Mae'n rhaid i etholwyr o'r etholaeth gynnig ac eilio pob ymgeisydd sy'n sefyll mewn etholiad; yn ogystal, mae'n rhaid i wyth etholwr arall o'r etholaeth gydsynio â'r enwebiad.

4.59 Y bobl sy'n gallu llofnodi papur enwebu yw'r rheiny sydd yn etholwyr Seneddol y DU, sydd ar y gofrestr ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad yr etholiad ac a fydd yn 18 oed neu'n hŷn (h.y. oed pleidleisio) ar y diwrnod pleidleisio.[38] Mae'r gofrestr honno yn derfynol ar gyfer y broses enwebu. Os caiff etholwr ei ddileu o'r gofrestr yn ddiweddarach cyn yr etholiad (neu yn wir cyn bod yr enwebiad wedi ei ddosbarthu hyd yn oed) neu os yw'n marw cyn yr etholiad, mae eu llofnod yn parhau'n ddilys ac nid yw'r enwebiad yn cael ei effeithio.

4.60 Mae'n rhaid i bob llofnodwr lofnodi'r papur enwebu yn y man priodol ac mae'n rhaid cynnwys eu rhif ymgeisio yn y gofod wrth ochr eu llofnod,[39] yn cynnwys llythrennau adnabod y dosbarth pleidleisio.

4.61 Ni all person lofnodi mwy nag un papur enwebu. Os byddant yn gwneud hyn, bydd eu llofnod ond yn ddilys ar y papur cyntaf i gael ei ddosbarthu i'r

[35] Paragraff 8, Atodlen 6, PPEA.
[36] Rheol 6(4), PER.
[37] Rheol 6(4), PER.
[38] Rheol 7, PER.
[39] Rheol 7(3), PER.

Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hyd yn oed os nad hwn oedd y papur cyntaf iddynt ei lofnodi.[40] Dylai fod gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) system gadarn i sicrhau nad yw unrhyw etholwr yn llofnodi mwy o bapurau enwebu nag sydd ganddynt hawl i'w wneud. Mae dulliau o'r fath yn cynnwys marcio copi o'r gofrestr neu ddefnyddio'r system meddalwedd rheoli etholiadol.

4.62 Os yw ymgeisydd yn marw neu'n tynnu eu papur enwebu yn ôl, gall y llofnodwyr lofnodi papur enwebu arall.

4.63 Nid oes unrhyw ofyniad i lofnodwyr brintio eu henw ar bapur enwebu Seneddol y DU hyd yn oed os yw'r ffurflen a ddarparwyd yn gofyn bod hyn yn cael ei gwblhau. Er bod cael enw wedi ei brintio yn hwyluso'r gwaith o wirio llofnodwyr, nid yw absenoldeb enw wedi ei argraffu yn effeithio ar ddilysrwydd y llofnodwr. Mae'n rhaid, fodd bynnag, i bob llofnodwr lofnodi'r ffurflen.[41]

4.64 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn mai llofnod y person a restrir ar y gofrestr o dan y rhif etholwr perthnasol yw'r llofnod a roddwyd ar y papur enwebu, hyd yn oed os yw'r llofnod yn awgrymu enw arall. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dynnu sylw'r person sy'n dosbarthu'r papur at y mater os oes ganddynt bryderon ond mae'n rhaid iddynt gymryd rhif yr etholwr a'r ffaith ei fod wedi ei lofnodi fel y mae'n ymddangos.

4.65 Dim ond y 10 llofnodwr cyntaf ar unrhyw bapur enwebu y gellir eu hystyried. Os oes mwy na 10 llofnodwr wedi cael eu cynnwys, ni ddylid ystyried yr unfed ar ddeg ac unrhyw enwau ar ôl hynny o gwbl. Os yw un o'r 10 llofnodwr cyntaf yn annilys, waeth a oes mwy na 10 llofnodwr wedi cael eu hychwanegu at y papur enwebu ai peidio, mae'n rhaid gwneud y papur enwebu yn annilys.

4.66 Weithiau gwneir camgymeriad gyda'r llofnodwyr ar bapur enwebu, a chaiff un neu fwy o'r enwau eu croesi allan ar y ffurflen. Os yw'r llofnod a rhif etholwr ar gyfer llofnodwr wedi eu croesi allan yn glir, yna dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei anwybyddu a'i drin fel pe na bai wedi ymddangos o gwbl. Ni ddylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud unrhyw groesi allan o'r fath. Dylai unrhyw groesi allan fod yn glir ac, yn ddelfrydol, fod wedi ei lofnodi. Mae'n rhaid ychwanegu enw, llofnod a rhif etholwr newydd yn lle'r un sydd wedi cael ei groesi allan. Os oedd y person yn gynigiwr neu'n eilydd, yna dylid nodi'r cynigiwr neu'r eilydd newydd.

4.67 Ni ddylid dweud wrth unrhyw ymgeisydd eu bod wedi cael eu henwebu'n ddilys nes cyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd.

[40] Rheol 7(5), PER.
[41] Rheol 7(1), PER.

Unwaith eu bod wedi eu rhoi, ni all y llofnodwyr dynnu eu llofnodion ar bapurau enwebu yn ôl. Os yw llofnodwr yn ysgrifennu at neu'n cysylltu mewn ffordd arall â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i ddweud eu bod yn dymuno tynnu eu llofnod yn ôl, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod y cais ac mae'r llofnod yn parhau'n ddilys.

Disgrifiad yr ymgeisydd

4.68 Mae'r ddeddfwriaeth yn fanwl iawn am ddisgrifiadau ymgeiswyr.[42] Gall ymgeisydd ddewis peidio cael disgrifiad, neu gellir disgrifio unrhyw ymgeisydd fel 'Annibynnol' os maent yn dymuno, Yng Nghymru, gall yr ymgeisydd ddefnyddio 'Independent' neu 'Annibynnol', neu'r ddau air. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd yn dymuno defnyddio unrhyw ddisgrifiad arall, mae'n rhaid i'r un a geir ar y papur enwebu gydymffurfio â'r rheolau a nodir isod.

4.69 Os yw ymgeisydd yn dymuno cael disgrifiad ar wahân i 'Independent' neu 'Annibynnol' yng Nghymru, mae'n rhaid i'r disgrifiad hwnnw gael ei awdurdodi gan blaid wleidyddol gofrestredig.[43] Wrth gyflwyno eu papur enwebu, mae'n rhaid iddynt hefyd gyflwyno tystysgrif awdurdodi gan Swyddog Enwebu'r blaid honno (neu berson a benodwyd ganddynt hwy i weithredu ar eu rhan). Mae'n rhaid bod y dystysgrif wedi cael eu dosbarthu cyn y dyddiad cau ar gyfer dosbarthu papurau enwebu.

4.70 Gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig gofrestru hyd at 12 disgrifiad gyda'r Comisiwn.[44] Pan fyddant yn gwneud hynny, mae'n rhaid i unrhyw ddisgrifiad a roddir ar bapur enwebu gyd-fynd yn union ag un o'r disgrifiadau a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn neu union enw'r blaid wleidyddol gofrestredig. Os bydd plaid wleidyddol gofrestredig wedi dewis peidio â chofrestru unrhyw ddisgrifiadau, dim ond union enw'r blaid fel y mae wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn y gellir ei ddefnyddio.

4.71 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wirio pwy yw'r Swyddog Enwebu trwy gyfeirio at gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, cyhyd â bod y person sydd wedi llofnodi'r dystysgrif yn honni bod ganddynt awdurdodiad y Swyddog Enwebu Cofrestredig, dylid derbyn y dystysgrif fel y mae'n ymddangos.

4.72 Mae'n rhaid i'r dystysgrif sy'n awdurdodi'r ymgeisydd hefyd ddisgrifio'r disgrifiad y gall yr ymgeisydd ei ddefnyddio. Gall y dystysgrif naill ai ddatgan y gall yr ymgeisydd ddefnyddio disgrifiad cofrestredig penodol neu enw'r blaid gofrestredig, neu ddatgan y gall yr ymgeisydd ddefnyddio unrhyw ddisgrifiad a gofrestrwyd gan y blaid neu enw'r blaid. Os yw disgrifiad penodol neu enw'r blaid gofrestredig yn cael ei roi fel yr unig ddewis ar y dystysgrif awdurdodi, mae'n rhaid i hwnnw gyd-fynd â'r disgrifiad ar y papur enwebu neu bydd y papur enwebu cyfan yn annilys.

[42] Rheolau 6(3) a 6A, PER.
[43] Rheol 6A, PER.
[44] Adran 28A, PPERA.

4.73 Os yw'r disgrifiad ar y dystysgrif awdurdodi yn cyd-fynd â'r papur enwebu neu os yw'r dystysgrif yn caniatáu'r ymgeisydd i ddewis y disgrifiad, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymgynghori â chofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol ac unrhyw ddisgrifiadau a gofrestrwyd o dan Adran 28A o PPERA, a geir ar wefan y Comisiwn. Mae'n rhaid i'r disgrifiad a roddir ar y papur enwebu gyd-fynd yn union â'r un a roddir ar y gofrestr o bleidiau gwleidyddol fel naill ai enw'r blaid neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid honno. Os nad yw'n cyd-fynd, bydd y papur enwebu cyfan yn annilys.

4.74 Yng Nghymru, gall ymgeisydd ddefnyddio naill ai'r fersiwn Saesneg, y fersiwn Gymraeg neu'r ddwy fersiwn naill ai o enw neu ddisgrifiad y blaid cyhyd â'u bod wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn. Caiff cyfieithiadau o enw'r blaid eu rhestru ar y wefan o dan 'enw arall' a chaiff cyfieithiadau o'r disgrifiadau eu rhestru i'r dde o'r disgrifiad o dan 'cyfieithiad(au)'. Os nad yw'r blaid wedi cofrestru'r cyfieithiad fel ei fod yn ymddangos ar wefan y Comisiwn, yna ni ellir defnyddio cyfieithiad o unrhyw enw neu ddisgrifiad plaid.

4.75 Os yw ymgeisydd yn sefyll gan gynrychioli dwy blaid, e.e. y Blaid Lafur a'r blaid Gydweithredol, mae angen tystysgrif awdurdodi yn nodi'r disgrifiad ar y cyd gan Swyddog Enwebu'r **ddwy** blaid. Yn yr enghraifft hon, mae'n rhaid i'r Blaid Lafur a'r Blaid Gydweithredol gyhoeddi tystysgrifau sy'n datgan, er enghraifft, disgrifiad o 'Ymgeisydd y Blaid Lafur a'r Blaid Gydweithredol', ac mae'n rhaid cofrestru'r disgrifiad ar y cyd hwnnw gyda'r Comisiwn. Caiff disgrifiadau ar y cyd eu rhestru mewn rhan arall o'r gofrestr, tua gwaelod y dudalen gofrestru ar gyfer y blaid berthnasol, a dylai'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gyfeirio at hyn wrth wirio'r enwebiadau.[45]

Gall disgrifiad ar gyfer y papur enwebu fod **naill ai** yn enw'r blaid **neu** yn un o'r disgrifiadau cofrestredig cyhyd â bod y rheolau ar gyfer y disgrifiad, fel y nodir yn yr adran hon, yn cael eu dilyn.

Enghraifft
Mae'r 'Blaid Borffor', plaid gofrestredig, wedi cofrestru un disgrifiad yn unig 'Ymgeisydd y Blaid Borffor'.

Mae'n rhaid i Swyddog Enwebu'r blaid, neu rywun a awdurdodwyd ganddynt hwy i weithredu ar eu rhan, lofnodi tystysgrif awdurdodi sy'n galluogi'r ymgeisydd i sefyll ar ran y Blaid Borffor.

Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wirio pwy yw'r Swyddog Enwebu trwy gyfeirio at gofrestr y Comisiwn o bleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, cyhyd â bod y person sydd wedi llofnodi'r dystysgrif yn honni bod ganddynt awdurdodiad y Swyddog Enwebu cofrestredig, dylid derbyn y dystysgrif fel y mae'n ymddangos.

Mae'n rhaid i'r dystysgrif awdurdodi ddatgan y gall yr ymgeisydd:

- ddefnyddio 'Y Blaid Borffor'

[45] Adran 28B, PPERA, a fewnosodwyd gan Adran 49, EAA 2006.

- defnyddio ‘Ymgeisydd y Blaid Borffor’, neu
- ddewis enw’r blaid neu unrhyw ddisgrifiad a gofrestrwyd gyda’r Comisiwn

4.76 Mae gwefan y Comisiwn yn aml yn arddangos enw cofrestredig y blaid mewn ffordd sy’n hawdd ei chwilio, e.e. ‘Plaid [Y] Comisiwn Etholiadol’. Enw gwirioneddol y blaid mewn achosion o’r fath yw ‘Plaid y Comisiwn Etholiadol’.

4.77 Os yn ystod gwiriad anffurfiol yr ymddengys fod y papur enwebu yn cynnwys disgrifiad ar y ffurf a nodir ar y wefan, e.e. ‘Plaid [Y] Comisiwn Etholiadol, yna dylid cynghori’r ymgeisydd/asiant i ddiwygio disgrifiad y blaid i’r ffurf gywir, yn yr achos hwn ‘Plaid y Comisiwn Etholiadol’, cyn i’r papurau gael eu cyflwyno’n ffurfiol gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

4.78 Os yw’r dystysgrif awdurdodi sy’n mynd gyda’r papur enwebu hefyd yn dilyn y fformat a geir ar y wefan, e.e. ‘Plaid [Y] Comisiwn Etholiadol’, nid oes angen i’r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei diwygio, ond dylai ei darllen fel ‘Plaid y Comisiwn Etholiadol’.

4.79 Fel arall, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried defnyddio’r pŵer i gywiro mân wallau[46] i ddiwygio’r papur enwebu fel ei fod yn cyd-fynd â disgrifiad neu enw’r blaid gofrestredig. Unwaith eto, ni fyddai angen diwygio’r dystysgrif a ddaw gydag ef. Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) fod yn ofalus wrth ddefnyddio’r pŵer hwn. Ceir mwy o wybodaeth am bŵer y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gywiro mân wallau isod.

Dyma’r penderfyniadau y mae’n rhaid i’r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) eu gwneud yn ymwneud ag ymgeisydd yn defnyddio disgrifiad ar wahân i ‘‘Independent’ a/neu ‘Annibynnol’:

- A yw’r ymgeisydd wedi ei ardystio i sefyll dros blaid wleidyddol gofrestredig trwy dystysgrif a lofnodwyd gan y Swyddog Enwebu neu rywun a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i lofnodi’r dystysgrif?
- A yw’r disgrifiad neu enw’r blaid a geir ar y papur enwebu wedi ei awdurdodi gan y dystysgrif awdurdodi neu a yw’r dystysgrif yn caniatáu’r ymgeisydd i ddewis unrhyw ddisgrifiad a/neu enw’r blaid a gofrestrwyd gyda’r Comisiwn gan y blaid?
- A yw’r disgrifiad ar y papur enwebu yn union yr un peth â’r un a gofrestrwyd gyda’r Comisiwn neu yn union yr un peth ag enw’r blaid a gofrestrwyd gyda’r Comisiwn, fel y ceir ar wefan y Comisiwn (www.electoralcommission.org.uk)?

4.80 Gall Swyddog Enwebu sefyll fel ymgeisydd. Os bydd hyn yn digwydd, gall yr ymgeisydd, fel Swyddog Enwebu, awdurdodi eu disgrifiad eu hun. Gall person a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i lofnodi tystysgrif plaid hefyd fod yn ymgeisydd a llofnodi tystysgrif ar gyfer eu henwebiad eu hunain.

[46] Rheol 14A, PER.

Mae'r gofynion disgrifio a'r opsiynau yn wahanol ar gyfer Llefarydd presennol Tŷ'r Cyffredin.

Gall y Llefarydd presennol ddefnyddio'r disgrifiad 'Y Llefarydd sy'n ceisio cael ei ailethol'. Nid oes angen i unrhyw ymgeisydd sy'n defnyddio'r disgrifiad hwn gefnogi'r defnydd o'r disgrifiad gydag unrhyw dystiolaeth ddogfennol neu dystysgrif awdurdodi.

Ni all ymgeisydd sy'n defnyddio disgrifiad o'r fath ofyn am arwyddlun plaid ac ni ddylid argraffu unrhyw arwyddlun o'r fath ar y papur pleidleisio.

Er gall y Llefarydd ddefnyddio'r disgrifiad 'Y Llefarydd sy'n ceisio cael ei ailethol', nid oes unrhyw ofyniad iddynt wneud hynny a gallent ddilyn y broses a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer defnyddio disgrifiad amgen.

Cais am arwyddlun plaid

4.81 Os gwneir cais am hynny, gall ymgeisydd plaid gofrestredig ddewis arddangos cofrestredig y blaid y maent yn ei chynrychioli ar y papur pleidleisio. [47] I fod yn gymwys, mae'n rhaid bod ymgeisydd wedi defnyddio disgrifiad ar wahân i 'Independent' a/neu 'Annibynnol'. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd, nid asiant yr etholiad na'r Swyddog Enwebu, wneud y cais yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na'r dyddiad cau ar gyfer enwebiadau. Os oes gan y blaid fwy nag un arwyddlun cofrestredig, mae'n rhaid i'r cais nodi pa un y maent eisiau ei defnyddio. Os yw'r ymgeisydd yn methu nodi un, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddewis un o arwyddluniau cofrestredig y blaid honno.

4.82 Gall yr ymgeisydd ddarparu copi eglur iawn o'r arwyddlun i'w ddefnyddio wrth argraffu'r papurau pleidleisio, neu gall ofyn bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn lawrlwytho'r arwyddlun o wefan y Comisiwn. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod pa gopi bynnag sy'n cael ei ddefnyddio ar yr un ffurf â'r arwyddlun cofrestredig.

Papurau enwebu lluosog

4.83 Nid oes unrhyw derfyn i nifer y papurau enwebu y gellir eu dosbarthu ar gyfer yr un ymgeisydd. Os yw ymgeisydd yn cael ei enwebu'n ddilys gan fwy nag un papur, dylai'r ymgeisydd ddewis pa un o'r papurau dilys y dylid eu defnyddio er mwyn i'r manylion gael eu hychwanegu i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papurau pleidleisio. Os na all neu os nad yw'r ymgeisydd yn gwneud hyn yna bydd yn rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddewis un ohonynt.[48]

4.84 Os oes mwy nag un papur enwebu'n cael ei ddosbarthu a bod un o'r papurau enwebu yn annilys, caiff y papur hwnnw ei eithrio o'r papurau y gellir eu dewis gan yr ymgeisydd neu'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

[47] Rheol 19(2A) a (2B), PER.
[48] Rheol 14(4), PER.

Cyhyd â bod o leiaf un papur enwebu yn ddilys, gellir enwebu'r ymgeisydd yn ddilys.

4.85 Y papur enwebu dethol yw'r 'papur enwebu a ddewisir' ac o'r papur hwnnw y caiff y manylion fydd yn ymddangos ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd eu cymryd.

4.86 Gall yr ymgeisydd hefyd ofyn, mewn etholiad a ymleddir, i'r cynigwyr, yr eilyddion a llofnodwyr eraill ar gyfer hyd at ddau bapur enwebu dilys arall gael eu hychwanegu i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Dylai'r datganiad hwn felly gynnwys gofod ar gyfer ychwanegu enwau 10, 20 neu 30 o lofnodwyr.

4.87 Pan fydd etholwr yn llofnodi unrhyw bapur enwebu a ddosbarthwyd, hyd yn oed os nad y papur enwebu a ddetholwyd ydyw, cânt eu hatal rhag llofnodi papur enwebu arall ac mae unrhyw enwebiad diweddarach sydd yn cynnwys eu llofnod hwy fel llofnodwr yn annilys.

Ffurflen cyfeiriad cartref

4.88 Nid yw ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol Seneddol y DU bellach yn rhoi eu cyfeiriad cartref ar y papur enwebu. Yn lle hyn, mae'n ofynnol arnynt lenwi ffurflen ar wahân y mae'n rhaid iddynt ei chyflwyno gyda'r papurau enwebu gofynnol eraill. Mae'r 'ffurflen cyfeiriad cartref' ar wahân hon yn rhoi'r dewis i'r ymgeisydd hepgor eu cyfeiriad llawn o'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papur pleidleisio.[49]

4.89 Mae'n rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref ddatgan cyfeiriad cartref yr ymgeisydd. Bydd methu â chyflwyno cyfeiriad yr ymgeisydd ar ffurflen cyfeiriad cartref ar wahân yn golygu bod yr enwebiad yn annilys.

4.90 Gall ymgeisydd, os ydynt yn dewis gwneud hynny, lofnodi datganiad ar y ffurflen cyfeiriad cartref yn datgan eu bod yn gofyn i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi. Mae'n rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd.

4.91 Os yw'r ymgeisydd yn dewis peidio arddangos eu cyfeiriad cartref ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papur pleidleisio, mae'n rhaid argraffu'r etholaeth lle mae cyfeiriad cartref yr ymgeisydd wedi ei leoli neu, os ydynt yn byw y tu allan i'r DU, y wlad lle maent yn byw, yn lle hynny.

4.92 Os yw ymgeisydd yn llofnodi datganiad yn gofyn i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, mae'n rhaid iddynt hefyd ddatgan enw etholaeth Seneddol y DU lle maent yn byw neu, os ydynt yn byw y tu allan i'r DU, y wlad lle mae eu cyfeiriad cartref, fel y gellir cyhoeddi hwn yn lle hynny.[50]

[49] Rheol 6(4), PER.
[50] Rheol 6(4) a (5), PER.

Mae'n rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref felly gynnwys:

- enw llawn yr ymgeisydd
- cyfeiriad cartref ymgeisydd yn llawn[51]

Os mai dyma'r unig adrannau sydd wedi eu llenwi ar y ffurflen, yna mae'n rhaid i gyfeiriad cartref llawn yr ymgeisydd gael ei gyhoeddi ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio.

Os yw'r ymgeisydd yn dewis cadw eu cyfeiriad cartref rhag cael ei gyhoeddi, mae'n rhaid iddynt lenwi gweddill y ffurflen. Yn yr achos hwn bydd y ffurflen cyfeiriad cartref yn cynnwys, yn ogystal â'r enw llawn a'r cyfeiriad cartref:

- datganiad, wedi ei lofnodi gan yr ymgeisydd, sydd yn datgan eu bod yn gofyn nad yw eu cyfeiriad cartref yn cael ei gyhoeddi
- etholaeth Seneddol y DU neu wlad nad yw yn y DU lle mae eu cyfeiriad cartref wedi ei leoli [52]

Mae'r Comisiwn wedi llunio ffurflen cyfeiriad cartref fel rhan o'i set o bapurau enwebu y gall Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) eu defnyddio. Gellir llwytho papurau enwebu i lawr o wefan y Comisiwn yn http://www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

4.93 Mae'r ffurflen cyfeiriad cartref ar gael i'w harchwilio ynghyd â'r papurau enwebu eraill ar gyfer y bobl a nodir yn yr adran 'Presenoldeb wrth ddosbarthu papurau enwebu'.[53] Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei wneud yn glir i'r personau sy'n archwilio ffurflen cyfeiriad cartref sy'n gofyn i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd beidio cael ei gyhoeddi, y dylid ond defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen cyfeiriad cartref gan y person sy'n archwilio er mwyn:

- gwrthwynebu i'r papur enwebu
- lansio deiseb etholiad
- gwneud cwyn i'r heddlu bod y person wedi gwneud datganiad anwir

ac y gall unrhyw ddefnydd arall olygu torri rheolau Deddf Diogelu Data 1998 a gwneud y person sy'n defnyddio'r wybodaeth at unrhyw ddiben arall yn destun erlyniad troseddol.

4.94 Os yw mwy nag un ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys, wrth i'r enwebiadau gau, wedi gofyn i'w cyfeiriad cartref beidio cael ei gyhoeddi, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried a oes gan ddau neu fwy ohonynt yr un enw neu enw tebyg fyddai'n achosi dryswch. Os yw hyn yn wir, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ychwanegu

[51] Rheol 6(4), PER.
[52] Rheol 6(5), PER.
[53] Rheol 11(3), PER.

manylion o'u cyfeiriad cartref neu'r papur enwebu fel y bo'n briodol i leihau'r tebygolrwydd o ddryswch. [54]

4.95 Cyn gwneud penderfyniad ynghylch pa fanylion y dylid eu cynnwys, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymgynghori â'r ymgeisydd(ymgeiswyr) yr effeithiwyd arnynt, os yw'n ymarferol gwneud hynny.[55] Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedyn roi rhybudd yn ysgrifenedig i'r ymgeiswyr yn eu hysbysu ynghylch yr wybodaeth ychwanegol fydd yn cael ei chyhoeddi.[56]

Enwebiadau mewn ieithoedd eraill

4.96 Yn Lloegr a'r Alban, dim ond yn Saesneg y gellir cyflwyno enwebiadau. Yng Nghymru gellir cyflwyno enwebiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.97 Er y gellir cyfieithu dogfennaeth arall yr etholiad i fformatau eraill yn cynnwys ieithoedd ar wahân i'r Saesneg (ac, yng Nghymru, i'r Gymraeg), dim ond yn Saesneg ac, yng Nghymru, yn Gymraeg, y gellir cynhyrchu papurau enwebu a phapurau pleidleisio.[57]

Yr Ymgeisydd yn cydsynio i'r enwebu

4.98 Nid yw ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys oni bai bod eu ffurflen gydsynio yn cael ei chyflwyno hefyd erbyn diwedd y cyfnod enwebu.

4.99 Mae'n rhaid i'r ymgeisydd lofnodi a dyddio'r cydsyniad ac mae'n rhaid i'r dyddiad fod ar neu o fewn un mis cyn y diwrnod olaf ar gyfer dosbarthu papurau enwebu.

4.100 Mae'n rhaid i unrhyw berson arall fod yn dyst i'r cydsyniad. Mae'n rhaid i'r tyst dystio bod yr ymgeisydd wedi llofnodi'r cydsyniad ac yna'i lofnodi fel tyst. Dylid eu hannog i roi eu henw a'u cyfeiriad ar y cydsyniad, fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny. Yr unig ofyniad yw i'r tyst ei 'ardystio'.[58]

4.101 Mae'n rhaid dosbarthu'r cydsyniad yn y man ac mewn amser ar gyfer dosbarthu'r papurau enwebu.[59]

4.102 Bydd ymgeisydd yn euog o arfer llwgr os bydd yn gwneud datganiad anwir yn eu cydsyniad enwebu ynghylch eu dyddiad geni neu eu cymhwysiad a'u diffyg anghymhwysiad i gael eu hethol[60] gweler 'Datganiadau anwir mewn papurau enwebu' isod.

---

[54] Rheol 14(4A), PER.
[55] Rheol 14(4B), PER.
[56] Rheol 14(4C), PER.
[57] Adran 199B(3), RPA 1983.
[58] Rheol 8(1)(b), PER.
[59] Rheol 8, PER.
[60] Adran 65A, RPA 1983.

4.103 Caiff y gofyniad i roi cydsyniad ysgrifenedig ei hepgor os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon bod yr ymgeisydd y tu allan i'r DU ac, oherwydd yr absenoldeb hwn, nad yw'n rhesymol ymarferol ei ddarparu yn ysgrifenedig.[61]

4.104 Mewn achosion o'r fath, caniateir i ymgeiswyr gydsynio trwy delegram, neu ddull tebyg fel ebost, ffacs neu ddogfen wedi ei sganio a'u hanfon yn electronig. Yn yr achosion hyn ystyrir bod y cydsyniad wedi cael ei roi yn ysgrifenedig ar y dyddiad y caiff ei anfon. Nid oes angen ardystio cydsyniad enwebu electronig o'r fath.

4.105 Mae'n rhaid i'r cydsyniad, wedi ei roi yn ysgrifenedig, neu yn y dull a ddisgrifir uchod o'r tu allan i'r DU, gynnwys y canlynol:[62]

- dyddiad geni'r ymgeisydd
- datganiad eu bod yn ymwybodol o ddarpariaethau Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975
- datganiad nad ydynt, hyd eithaf eu gwybodaeth, wedi eu anghymhwyso rhag bod yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin
- datganiad nad ydynt yn ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer unrhyw etholaeth Seneddol arall y DU gyda'r un diwrnod pleidleisio.

Datganiadau anwir mewn papurau enwebu

4.106 Mae'n drosedd i unrhyw berson yn wybodol gynnwys gwybodaeth anwir mewn papur enwebu.[63] Ni all Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymchwilio i unrhyw ddatganiad a roddir mewn papur enwebu, ffurflen cyfeiriad cartref, cydsynio i'r enwebu neu'r dystysgrif awdurdodi. Dylent, fodd bynnag, amlygu'r angen i roi datganiadau cywir a chanlyniadau torri rheolau'r darpariaethau hynny.

4.107 Uchafswm y gosb am roi datganiad anwir ar bapur enwebu yw dirwy neu flwyddyn o garchar.

Blaendal

4.108 Er mwyn cael ei enwebu'n ddilys mae'n rhaid i ymgeisydd hefyd roi blaendal o £500 i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).[64] Mae'n rhaid talu'r swm hwn erbyn diwedd y cyfnod enwebu.

4.109 Mae'n rhaid derbyn y taliad os caiff ei wneud gydag arian cyfreithlon neu ddrafft banc gan godwr (banc/cymdeithas adeiladu) sydd yn cynnal busnes fel banciwr yn y DU.[65]

---

[61] Rheol 8(2), PER.
[62] Rheol 8(3), PER.
[63] Adran 65A, RPA 1983.
[64] Rheol 9, PER.
[65] Rheol 9(2)(a) a (b), PER.

4.110 Mae gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd bŵer yn ôl disgresiwn i dderbyn ffurfiau eraill o dalu, yn cynnwys taliad trwy gerdyn credyd neu ddebyd neu drosglwyddo arian yn electronig.[66]

4.111 Mae systemau bancio modern yn caniatáu i arian gael ei drosglwyddo yn gyflym iawn. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ganiatáu trosglwyddiadau banc o'r fath i'w cyfrif. Fodd bynnag, gellir ond gwneud y taliadau hyn gyda chydsyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ond dylid rhoi awdurdodiad ymlaen llaw os yw'r ymgeisydd yn bodloni gofynion penodol a benderfynir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

4.112 Gall y gofynion ar gyfer trosglwyddiadau banc gynnwys gofyn i'r person sy'n gwneud y taliad gynnwys cyfeiriad penodol ar y trafodyn. Mae'n rhaid i hyn gynnwys y person sydd yn gwneud y taliad yn rhoi eu henw a'u cyfeiriad i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) os nad ydynt wedi ei roi eisoes fel asiant neu is-asiant. Mae'r rhan fwyaf o drosglwyddiadau banc yn caniatáu i label gael ei ychwanegu a dylai hyn gynnwys enw'r talwr a/neu gyfeirnod a roddir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

4.113 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried sut y byddant yn sicrhau bod taliadau o'r fath wedi cyrraedd eu cyfrif. Mae'n rhaid i unrhyw drosglwyddiad banc o'r blaendal ymddangos yng nghyfrif y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn diwedd y cyfnod enwebu. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried sut y gellir dilysu taliadau, er enghraifft trwy fynediad i'w cyfrif ar y rhyngrwyd neu argraffu copi caled o drafodion eu cyfrif. Os nad yw'r taliadau'n ymddangos erbyn diwedd y cyfnod enwebu, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried nad yw'r blaendal wedi cael ei ddosbarthu yn gywir.

4.114 Dylai talu trwy gerdyn credyd neu ddebyd gael ei ystyried hefyd. Unwaith eto, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu caniatáu'r dull hwn dim ond os bodlonir amodau penodol, fel rhoi enw a chyfeiriad y talwr, y trafodyn yn digwydd erbyn amser penodol a bod awdurdodiad gan gyflenwr y cerdyn credyd yn cael ei dderbyn.

4.115 Mae trafodion cardiau debyd a chredyd fel arfer yn codi ffi ar y taledig, sef y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn yr achos hwn. Gan fod angen i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn y £500 llawn, dylai'r person sydd yn gwneud y taliad orfod talu'r ffi ychwanegol er mwyn sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derbyn y blaendal llawn. Gall dulliau gwahanol o dalu ddenu ffioedd gwahanol a dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hysbysu'r talwr o gyfanswm y taliad sy'n ofynnol ar gyfer pob math o daliad fel rhan o'u cydsyniad i dderbyn taliad yn y ffordd hon.

4.116 Gellir talu'r blaendal trwy gyfuniad o unrhyw ddull sy'n ofynnol naill ai i gael ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu y maent wedi cydsynio i dderbyn taliad. Er enghraifft, os yw taliad trwy ddrafft banc yn cynnwys gwall a bod llai na £500 wedi ei nodi ar y ddogfen, gellir talu gweddill y balans trwy ddull arall.

[66] Rheol 9(2)(c), PER.

4.117 Mae'n rhaid dychwelyd blaendal i unrhyw ymgeisydd sydd yn tynnu'n ôl o'r etholiad cyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl. Os yw ymgeisydd yn marw dylid dychwelyd eu blaendal cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn prawf boddhaol o farwolaeth yr ymgeisydd.

Cywiro gwallau bach

4.118 Caniateir i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gywiro gwallau bach a wnaed ar y papurau enwebu, yn cynnwys y ffurflen cyfeiriad cartref. Gall Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gywiro gwallau yn ymwneud â rhif etholwr person a gwallau sillafu amlwg yn ymwneud â manylion ymgeisydd, ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd.[67]

4.119 Er enghraifft, os yw rhif etholwr wedi cael ei roi yn anghywir, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei ddiwygio os ydynt yn fodlon bod gwall wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, os yw'r rhif etholwr wedi cael ei hepgor yn gyfan gwbl, nid gwall yw hwn, a dylid gwrthod y papur enwebu ar y sail nad yw'r rhif wedi cael ei roi ac nad yw'r manylion fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Gall ymdrin â gwallau 'amlwg' sillafu fod yn fwy anodd, am nad yw'r hyn sy'n amlwg i un person mor amlwg i berson arall. Dylid cymryd gofal wrth ymarfer y pŵer hwn.

Er y dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn enwebiadau fel y maent yn ymddangos dylid nodi os nad yw cyfeiriad cartref (neu etholaeth neu enw gwlad fel y bo'n briodol) yn gwbl gywir, ni fyddai'r enwebiad yn agored i gael ei herio'n llwyddiannus cyhyd â bod y cyfeiriad yn ddealladwy yn gyffredinol.[68]

Penderfyniad ynghylch dilysrwydd papurau enwebu

4.120 Wrth wneud penderfyniad ynghylch dilysrwydd papur enwebu, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) anwybyddu unrhyw wybodaeth bersonol sydd ganddynt am unrhyw ymgeisydd ac ni ddylent gynnal ymchwiliad na gwneud ymchwil i unrhyw ymgeisydd. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddyfarnu'r enwebiad ar sail yr wybodaeth a roddwyd ar y papurau enwebu.

4.121 Mae cyfraith achosion yn datgan nad yw dyletswydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn mynd y tu hwnt i weld bod y ffurflen yn 'gywir fel y mae'n ymddangos'.[69] Ni ellir disgwyl i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddechrau ymchwiliad ynghylch ble mae pob ymgeisydd yn byw[70] na bod mewn sefyllfa i wybod a'i eu henw gwirioneddol yw'r enw a roddwyd gan yr ymgeisydd neu'r enw y cânt eu galw yn gyffredin.

[67] Rheol 14A, PER.
[68] Adran 50, RPA 1983.
[69] Pritchard v Mayor of Bangor, 13 App Cases at pp 252, 257.
[70] R v Election court, ex parte Sheppard [1975] 2 All ER 723.

4.122 Os nad yw'r holl ddogfennaeth angenrheidiol a'r blaendal gofynnol yn cael eu dosbarthu erbyn y dyddiad cau yna nid oes enwebiad wedi cael ei wneud ac felly ni ellir ei farnu'n ddilys nac yn annilys. Dim ond unwaith bydd yr holl ddogfennaeth a'r blaendal wedi cael eu dosbarthu y gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu bod yr enwebiad yn ddilys neu'n annilys.

4.123 Er enghraifft, os caiff papur enwebu ei ddosbarthu heb y blaendal, ni all y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu ei fod yn annilys. Hyd yn oed os bydd y dyddiad cau ar gyfer dosbarthu yn mynd heibio heb ddosbarthu blaendal dilys nid oes angen penderfynu bod yr enwebiad yn annilys oherwydd yn yr achos hwn ystyrir nad yw'r enwebiad wedi cael ei ddosbarthu o gwbl.[71]

4.124 Unwaith bydd papur enwebu wedi cael ei dderbyn, ni all yr ymgeisydd wneud unrhyw newidiadau iddo. Os yw ymgeisydd yn penderfynu'n ddiweddarach eu bod eisiau gwneud newidiadau, er enghraifft i'r disgrifiad, yr unig ffordd y gellir gwneud hyn yw trwy dynnu eu hymgeisyddiaeth yn ôl (gweler 'Ymgeisydd yn tynnu'n ôl' isod) ac yna cyflwyno papur enwebu newydd o fewn y dyddiad cau statudol.

Gwneud y penderfyniad

4.125 Unwaith y bydd papur enwebu wedi cael ei ddosbarthu'n ffurfiol, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud penderfyniad ar ei ddilysrwydd cyn gynted ag y mae'n ymarferol. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn ceisiadau am enwau a ddefnyddir yn gyffredin a cheisiadau ar gyfer peidio â chyhoeddi cyfeiriadau cartref ymgeiswyr yn ffurfiol nes y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau.

4.126 Yr unig sail sydd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer dyfarnu bod papur enwebu yn annilys yw:[72]

- nad yw manylion yr ymgeisydd neu'r personau sy'n llofnodi'r papur fel y maent yn ofynnol yn ôl y gyfraith
- nad yw'r papur wedi ei lofnodi fel y mae'n ofynnol
- bod y person wedi'i anghymhwyso trwy reswm yr RPA1981

4.127 Mae 'manylion yr ymgeisydd' yn ymestyn i'w disgrifiad. Felly, dylid ystyried papur enwebu yn annilys os nad yw'r disgrifiad a ddefnyddiwyd wedi cael ei roi yn unol â'r rheolau.[73]

4.128 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) argraffu copi o dudalen y Comisiwn ar y we sydd yn dangos disgrifiadau ac enw'r blaid ar adeg pennu enwebiad unrhyw ymgeisydd sydd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol. I wirio bod y papur enwebu yn cynnwys enw neu ddisgrifiad dilys plaid, ewch i

[71] Rheol 12(1), PER.
[72] Rheol 12(2), PER.
[73] R v Balabanoff [2002] EWHC 670 (Admin).

http://registers.electoralcommission.org.uk/regulatory-issues/regpoliticalparties.cfm.

4.129 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wirio manylion yr holl lofnodwyr yn ofalus, i nodi gwallau bach y gallant eu diwygio yn unol â'u pŵer ac i ganfod a oes unrhyw lofnodwr eisoes wedi llofnodi papur enwebu (p'un a'i beirniadwyd yn ddilys neu'n annilys). Unwaith y bydd etholwr wedi llofnodi un papur enwebu, mae eu llofnod ar unrhyw bapur enwebu wedi hynny yn anweithredol[74] a fyddai'n gwneud y papurau dilynol 'heb eu llofnodi fel sy'n ofynnol' ac, felly, yn annilys.

4.130 Os bydd papur enwebu wedi cael ei lofnodi gan fwy na'r nifer gofynnol o lofnodwyr, y llofnodion hyd at y nifer gofynnol (cynigiwr, eilydd ac wyth cefnogwr) ddylid eu hystyried, h.y. y cynigiwr, yr eilydd a'r wyth cefnogwr cyntaf. Dylid anwybyddu unrhyw lofnodion ychwanegol hyd yn oed os canfyddir nad yw llofnodwr sy'n ymddangos o fewn y nifer gofynnol yn gymwys.[75] Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid gwrthod y papur enwebu ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno papur enwebu newydd o fewn y dyddiad cau gyda chynigiwr newydd, eilydd newydd ac wyth cefnogwr newydd.

4.131 Os bydd ymgeisydd yn dymuno defnyddio enw a ddefnyddir yn gyffredin, nid yw'n ofynnol ar y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gyhoeddi'r enw hwnnw ar y datganiad ynghylch y personau a enwebir, hysbysiad y bleidlais a'r papur pleidleisio os ydynt o'r farn y gallai ei ddefnyddio fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu os caiff ei ystyried yn anweddus neu'n dramgwyddus.[76] Mewn enghreifftiau o'r fath, dim ond y defnydd o'r enw a ddefnyddir yn gyffredin a wneir yn annilys, nid y papur enwebu.

Cyfleu penderfyniad ar ddilysrwydd papurau enwebu

4.132 Os penderfynir bod enwebiad yn annilys mae'n bwysig cysylltu â'r ymgeisydd a'r asiant cyn gynted â phosibl fel y gallant gael cyfle i gyflwyno set arall o bapurau enwebu cyn diwedd y cyfnod enwebu.

4.133 Os dyfernir bod enwebiad yn annilys mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddatgan y ffaith honno ar y papur enwebu, ysgrifennu'r rhesymau dros ei wrthod a'i lofnodi. [77]

Canlyniad penderfyniadau

4.134 Unwaith bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi gwneud penderfyniad bod papur enwebu yn annilys, ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad, er y gellir ei herio trwy ddeiseb etholiadol ar ôl yr etholiad.[78]

[74] Rheol 7(5), PER.
[75] Rheol 7(2), PER.
[76] Rheol 14(2B), PER.
[77] Rheol 12(4), PER.
[78] Rheolau 12(5) a (6), PER.

Gwrthwynebiadau i bapurau enwebu

4.135 Yr unig bobl sydd â hawl i wrthwynebu i bapur enwebu yw:

- ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys
- asiant etholiad ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys
- cynigiwr neu eilydd unrhyw ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys

4.136 Mae'r amser lle y gellir gwrthwynebu i enwebiad penodol yn amrywio yn dibynnu pryd y cafodd y papur enwebu perthnasol ei ddosbarthu. Ar gyfer unrhyw enwebiad a ddosbarthwyd cyn y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau, mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad rhwng 10am a 12 canol dydd ar y diwrnod olaf ar gyfer dosbarthu enwebiadau. Ar gyfer unrhyw enwebiad sy'n cael ei ddosbarthu ar y diwrnod olaf ar gyfer enwebiadau, mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad erbyn 5pm ar y diwrnod hwnnw, ac eithrio unrhyw wrthwynebiad ynglŷn â chyflawnder neu natur manylion yr ymgeisydd (e.e. yr enw, disgrifiad, cyfeiriad cartref neu ddyddiad geni) ac mae'n rhaid gwneud hyn yn syth ar ôl i'r papur gael ei ddosbarthu.[79]

4.137 Os ceir gwrthwynebiad, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddatrys y gwrthwynebiad hwn.[80] Mae'n rhaid i benderfyniad ynghylch gwrthwynebiad fod yn seiliedig ar yr unig sail sydd ar gael y gellir gwneud papur enwebu yn annilys.[81] Ni ddylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gynnal unrhyw ymchwiliad na gwrando ar unrhyw gynrychiolaethau i gefnogi neu herio unrhyw ffaith na datganiad a geir ar y papur enwebu.

4.138 Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyfyngu'r broses wrthwynebu i ailarchwilio'r papurau enwebu, ffurflenni cyfeiriad cartref, cydsynio i'r enwebu a ffurflenni eraill sy'n ofynnol ar gyfer enwebu. Dim ond os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi gwneud camgymeriad yn penderfynu ar y papurau enwebu y gall y gwrthwynebiad fod yn llwyddiannus. Os yw gwrthwynebiad yn cael ei gadarnhau, bydd yr enwebiad yn cael ei wneud yn annilys.

Ymgeiswyr yr honnir eu bod yn y carchar

4.139 O dan RPA 1981, caiff person ei anghymhwyso rhag sefyll mewn etholiad i Senedd y DU os ydynt wedi eu cael yn euog o drosedd ac wedi cael dedfryd amhenodol neu ddedfryd o fwy na blwyddyn unrhyw le yn y DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw[82] neu Weriniaeth Iwerddon.[83]

4.140 Caiff y broses ar gyfer cyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ei newid os ymddengys i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) y gallai'r ymgeisydd fod wedi ei anghymhwyso o dan RPA 1981. Yn yr achos

[79] Rheol 1, PER.
[80] Rheol 12(3), PER.
[81] Rheol 12, PER.
[82] 'British Islands' fel y'i diffinnir gan Atodlen 1, Deddf Dehongli 1978.
[83] Adran 1, RPA 1981.

hwn, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyhoeddi 'datganiad drafft o'r personau a enwebwyd' a fydd yn cynnwys y rheiny sydd wedi eu henwebu ar yr adeg honno, ond na fydd yn cynnwys manylion y llofnodwyr. Mae'n rhaid i'r datganiad drafft hefyd ddatgan y gall unrhyw ymgeisydd fod yn destun gwrthwynebiad o 10am hyd at 4pm ar y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod enwebu.[84] Mae'n rhaid cyhoeddi datganiad terfynol o'r personau a enwebwyd ar 4pm ar y diwrnod hwnnw.[85]

Ymgeisydd yn tynnu'n ôl

4.141 Mae'n bosibl i ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys dynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddosbarthu hysbysiad wedi ei lofnodi i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), wedi ei ardystio gan un tyst,[86] erbyn diwedd y cyfnod enwebu.[87]

4.142 Os nad yw'r ymgeisydd yn y DU, bydd tynnu'n ôl yn effeithiol os yw hysbysiad tynnu'n ôl, wedi ei lofnodi gan y cynigiwr ac yn cynnwys datganiad ysgrifenedig bod yr ymgeisydd dramor, yn cael ei ddosbarthu i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn diwedd y cyfnod enwebu. Os cafodd yr ymgeisydd ei enwebu gan fwy nag un papur enwebu, mae'n rhaid i bob cynigiwr roi'r hysbysiad. Os yw unrhyw un o'r cynigwyr y tu allan i'r DU nid oes angen iddynt lofnodi'r hysbysiad, ond mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad bod gweddill y cynigwyr y tu allan i'r DU.[88]

4.143 Os nad yw ymgeisydd wedi tynnu'n ôl erbyn y dyddiad cau, mae'n rhaid i'w henw gael ei gyflwyno ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r papur pleidleisio hyd yn oed os ydynt yn newid eu meddwl wedi hynny ac yn dymuno tynnu'n ôl.

Storio'r papurau enwebu

4.144 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gadw'r papurau enwebu yn ddiogel a chaniatáu iddynt gael eu harchwilio gan y personau a restrir yn 'Presenoldeb wrth ddosbarthu papurau enwebu' uchod nes y dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebu i'r papurau enwebu.

4.145 Ar ôl y cyfnod hwnnw dylai'r papurau enwebu barhau wedi eu storio'n ddiogel gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am flwyddyn ar ôl yr etholiad, ac eithrio'r ffurflen cyfeiriad cartref, y mae'n rhaid ei dinistrio ar ôl 21 diwrnod.

Am fwy o ganllawiau am storio holl ddogfennau'r etholiad a phwy all eu gweld ar ôl yr etholiad gweler Rhan DD, 'Ar ôl cyhoeddi'r canlyniad', Adran 1 'Cadw, storio ac archwilio dogfennau'r etholiad'.

[84] Rheol 15, PER.
[85] Rheol 1, PER.
[86] Rheol 13 (1), PER.
[87] Rheol 1, PER.
[88] Rheol 13, (2), PER.

Datganiad personau a enwebwyd

4.146 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyhoeddi datganiad o'r personau a enwebwyd heb fod yn hwyrach na 5pm ar y diwrnod olaf ar gyfer dosbarthu'r papurau enwebu os nad oes unrhyw wrthwynebiadau.[89] Os oes gwrthwynebiadau, mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn 4pm ar y diwrnod ar ôl y diwrnod olaf ar gyfer enwebu.

4.147 Mae'n rhaid i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ddangos:

- enw
- cyfeiriad / enw etholaeth / gwlad nad yw yn y DU
- disgrifiad (os oes un)
- enwau'r llofnodwyr

4.148 yr holl ymgeiswyr sydd wedi eu henwebu'n ddilys a'r rheiny nad ydynt bellach wedi eu henwebu (h.y. ymgeiswyr annilys ac wedi tynnu'n ôl, os oes rhai), yn cynnwys y rheswm pam nad ydynt wedi eu henwebu bellach.

4.149 Mae'n rhaid rhestru enwau'r ymgeiswyr ar y datganiad yn nhrefn yr wyddor o ran eu cyfenw a dyma'r ffordd y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio.[90] Os oes dau ymgeisydd neu fwy â'r un cyfenw, bydd trefn yr enwau eraill yn yr wyddor yn penderfynu pa ymgeisydd sy'n cael ei restru gyntaf. Os yw person wedi gofyn i ddefnyddio enw a ddefnyddir yn gyffredin ar eu papur enwebu, mae'n rhaid dangos yr enw a ddefnyddir yn gyffredin ar y datganiad, yn lle'r enw gwirioneddol.[91] Mae'n bwysig nodi os derbynnir cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, mae'n rhaid i safle ymgeisydd yn ôl trefn yr wyddor ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio gael ei nodi trwy gyfeirio at eu cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin.

4.150 Os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi gwrthod y defnydd o unrhyw enw a ddefnyddir yn gyffredin am eu bod o'r farn ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anweddus neu'n dramgwyddus, dylid cyhoeddi'r enw gwirioneddol ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd yn lle'r enw a ddefnyddir yn gyffredin.

4.151 Os caiff cais i beidio cyhoeddi cyfeiriad cartref ei dderbyn, mae'n rhaid rhestru etholaeth Seneddol y DU neu wlad nad yw yn y DU yn lle cyfeiriad cartref yr ymgeisydd. Fel y trafodir yn yr adran 'Ffurflen cyfeiriad cartref' uchod, bydd yn rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud penderfyniad ar gyhoeddi manylion cyfeiriad pellach os yw dau ymgeisydd neu fwy â'r un enw neu enwau tebyg yn gofyn i'w cyfeiriad cartref beidio cael ei gyhoeddi.

4.152 Y fformat cywir pan na fydd cyfeiriad cartref yn cael ei gyhoeddi yw i ychwanegu'r geiriau 'cyfeiriad yn' cyn etholaeth ac ychwanegu cromfachau o

[89] Rheol 1, PER.
[90] Rheol 14(3) PER.
[91] Rheol 14(2A), PER.

amgylch y geiriau, er enghraifft: (cyfeiriad yn Etholaeth Votetown). Dylid ychwanegu gwybodaeth ychwanegol am yr ymgeisydd fel y'i ceir ar y papurau enwebu os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gwneud penderfyniad bod hyn yn angenrheidiol (gweler yr adran 'Cyfeiriad cartref' uchod).

4.153 Mae'n rhaid i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd hefyd gynnwys hysbysiad y bleidlais mewn etholiad a ymleddir. Os yw'r etholiad yn ddiwrthwynebiad, mae'n rhaid i'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd gynnwys datganiad ynghylch yr ymgeisydd a etholwyd yn llwyddiannus.

Ceir canllawiau ar y dull o gyhoeddi datganiad ynghylch y personau a enwebwyd o baragraff 4.1 uchod yn 'Cyhoeddi hysbysiad yr etholiad'.

4.154 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) anfon copi i'r Comisiwn o'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Dylid anfon hwn at y swyddfa ddatganoledig berthnasol neu'r swyddfa ranbarthol berthnasol yn Lloegr. Mae'n rhaid anfon copi o unrhyw dystysgrif awdurdodi a ddefnyddiwyd i ardystio ymgeisydd plaid i'r Comisiwn hefyd.[92] Anfonwch gopïau (h.y. llungopi, nid copi gwreiddiol) i:

Party and Election Finance
The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW.

4.155 Fel arall, gellir anfon copi wedi ei sganio o'r dogfennau hyn at pef@electoralcommission.org.uk.

Etholiadau diwrthwynebiad

4.156 Os dim ond un enwebiad dilys a dderbynnir, neu os yw'r holl enwebiadau dilys yn cael eu tynnu'n ôl yn gywir erbyn y dyddiad cau ar wahân i un, bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad. Os yw'r etholiad yn ddiwrthwynebiad, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), cyn gynted ag y mae'n ymarferol, gyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Mae'n rhaid i hwn gynnwys datganiad yn datgan yr unig ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys i gael ei ethol.[93]

4.157 Yna dylid dychwelyd y gwrit gyda manylion yr ymgeisydd llwyddiannus. Nid oes angen pleidlais.



Gweler Rhan D, Dilysu a chyfrif', Adran 7, 'Cyhoeddi'r canlyniad a dychwelyd y gwrit' am fwy o fanylion am gwblhau a dychwelyd y gwrit.

[92] Rheol 14 (5), PER.
[93] Rheol 50(2), PER.

5 Penodi asiantau etholiad, pleidleisio a chyfrif

Penodi asiantau etholiad

5.1 Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gael asiant etholiad,[94] ac mae'n rhaid i'r hysbysiad penodi gael ei ddosbarthu i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn yr amser olaf ar gyfer dosbarthu hysbysiadau tynnu'n ôl (h.y. diwedd y cyfnod enwebu).[95] Mae'n bosibl i ymgeisydd benodi ei hun fel asiant yr etholiad [96] ac, os nad oes asiant yn cael ei benodi erbyn yr amser uchod, ystyrir mai'r ymgeisydd yw ei asiant etholiad ei hun.[97] Mae hyn hefyd yn wir os yw'r ymgeisydd yn dirymu penodiad ei asiant, neu os yw'r asiant yn marw, ac nad oes rhywun newydd yn cael ei benodi.

5.2 Gall yr ymgeisydd ddirymu ei benodiad fel ei asiant ei hun ar unrhyw adeg, p'un a ydynt wedi dod yn asiant yn ddiofyn trwy beidio penodi un neu oherwydd eu bod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'u penodiad eu hunain i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

5.3 Mae rôl asiant yr etholiad yn bwysig am mai dim ond asiant yr etholiad a all awdurdodi gwariant ar ran yr ymgeisydd. Yn ogystal, mae ganddynt, ynghyd â'r ymgeisydd, ddyletswydd i sicrhau bod ymgyrch etholiad yr ymgeisydd yn cael ei chynnal yn unol â'r gyfraith; os ydynt yn amau bod cefnogwyr yr ymgeisydd, y mae ganddynt rywfaint o reolaeth drostynt, yn cyflawni arferion anghyfreithlon, mae'n rhaid iddynt gymryd camau gweithredol i'w atal rhag digwydd.

5.4 Mae'n rhaid i asiant yr etholiad gael swyddfa, ac mae'n rhaid i'r hysbysiad penodi nodi cyfeiriad y swyddfa, y gellir, yng ngeiriau'r ddeddfwriaeth, 'anfon yr holl hawliadau, hysbysiadau a dogfennau (proses gyfreithiol ac arall) ati'.[98] Mae'n rhaid i'r swyddfa hon fod naill ai: [99]

- yn yr etholaeth, neu
- mewn etholaeth gyfagos, neu
- yng Nghymru, gall fod o fewn bwrdeistref sirol yng Nghymru sydd yn rhan o'r etholaeth neu'n cydffinio â hi, neu
- yn Llundain, gall fod o fewn bwrdeistref yn Llundain sydd yn rhan o'r etholaeth neu'n cydffinio â hi

5.5 Bydd cyfeiriad swyddfa'r asiant yn aml yr un peth â'u cyfeiriad cartref, ond gall hefyd fod yn swyddfa leol i'r blaid wleidyddol neu'n swyddfa a sefydlwyd yn arbennig ar gyfer yr etholiad.

5.6 Os yw ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant etholiad ei hun trwy rinwedd peidio ag ethol unrhyw un arall, ystyrir mai'r cyfeiriad a geir ar y datganiad

[94] Adran 67(1), RPA 1983.
[95] Adran 67(1), RPA 1983.
[96] Adran 67(2), RPA 1983.
[97] Adran 70, RPA 1983.
[98] Adran 69(1), RPA 1983.
[99] Adran 69(2), RPA 1983.

ynghylch y personau a enwebwyd yw cyfeiriad y swyddfa, h.y. y cyfeiriad a geir ar y ffurflen cyfeiriad cartref. Os yw'r cyfeiriad hwnnw y tu hwnt i'r ardal gymwys berthnasol (gweler y pwyntiau bwled uchod), ystyrir mai cyfeiriad y swyddfa yw cyfeiriad y person a enwir yn y datganiad fel cynigiwr. [100]

5.7 Os yw ymgeisydd wedi gofyn i gadw manylion eu cyfeiriad yn ôl ar y ffurflen cyfeiriad cartref ond yn dod yn asiant etholiad yn ddiofyn, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyhoeddi eu cyfeiriad cartref er bod yr ymgeisydd wedi gofyn iddo gael ei gadw'n breifat.[101] Yr unig eithriad i'r rheol hon yw os yw cyfeiriad yr ymgeisydd y tu hwnt i'r ardal gymwys berthnasol. Yn yr achos hwnnw, ystyrir mai cyfeiriad y person a enwir yn y datganiad fel cynigiwr yw'r cyfeiriad. [102]

5.8 Os yw'r ymgeisydd yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'u penodiad fel eu hasiant etholiad eu hunain i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mae'n rhaid iddynt roi cyfeiriad swyddfa o fewn yr ardal gymwys (gweler y pwyntiau bwled uchod. [103]

5.9 Wrth hysbysu ynghylch enw a chyfeiriad asiant etholiad, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r manylion cyn gynted â phosibl.[104] Dylid diweddaru'r hysbysiad os caiff penodiad yr asiant ei ddirymu, neu os yw'r asiant yn marw, a chyhoeddi manylion yr asiant newydd ar y fersiwn ddiwygiedig.

5.10 Mae'n bosibl i asiantau etholiad ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholaethau sirol benodi is-asiant ar gyfer rhan benodol o'r etholaeth.[105] Mae'n rhaid gwneud hyn erbyn yr ail ddiwrnod cyn y bleidlais ac mae'n rhaid i'r is-asiant gael cyfeiriad swyddfa sydd yn gorfod bod yn yr ardal y maent yn gweithredu ynddi.[106] Mae'n rhaid i asiant yr etholiad roi hysbysiad ysgrifenedig yn datgan cyfeiriad cartref a chyfeiriad swyddfa yr is-asiant a'r ardal lle y gall yr is-asiant weithredu. Ni all fod mwy nag un is-asiant mewn unrhyw ran o'r etholaeth, h.y. gellir cael mwy nag un is-asiant ond ni all eu hardaloedd orgyffwrdd.

Penodi asiantau pleidleisio a chyfrif

5.11 Gall ymgeiswyr benodi asiantau pleidleisio i fynychu gorsafoedd pleidleisio at ddiben canfod cambersonadu, ac asiantau cyfrif i fynychu cyfrif pleidleisiau.[107]

5.12 Nid oes unrhyw derfyn ar nifer yr asiantau pleidleisio y gall ymgeisydd eu penodi mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU er mai dim ond un asiant

[100] Adran 70(4), RPA 1983.
[101] Adran 70(4)(a) a (6), RPA 1983.
[102] Adran 70(4), RPA 1983.
[103] Adran 70(4), RPA 1983.
[104] Adran 67(6), RPA 1983.
[105] Adran 68(1), RPA 1983.
[106] Adran 68(3), RPA 1983.
[107] Rheol 30, PER.

pleidleisio ar gyfer ymgeisydd penodol all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio benodol ar unrhyw adeg.[108]

5.13 Mae nifer yr asiantau cyfrif y gall ymgeisydd eu penodi yn destun terfyn a osodir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r nifer a osodir fod yr un peth yn achos pob ymgeisydd ac ni all, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, fod yn llai na'r nifer a geir wrth rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif a gyflogir i gyfrif gan nifer yr ymgeiswyr.[109] Er enghraifft, os oes 50 o gynorthwywyr cyfrif a phump ymgeisydd yna gellir cyfyngu nifer yr asiantau cyfrif i 10 ar gyfer pob ymgeisydd yn ogystal â'r ymgeisydd, eu gwestai ac asiant yr etholiad. Wrth bennu uchafswm yr asiantau cyfrif, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried unrhyw oblygiadau iechyd a diogelwch, yn cynnwys rheoliadau tân ar gyfer y lleoliad cyfrif.

5.14 Mae'n rhaid rhoi hysbysiadau penodi'r asiantau pleidleisio a'r asiantau cyfrif gyda'u henwau a'u cyfeiriadau yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) heb fod yn hwyrach na'r ail ddiwrnod gwaith cyn y bleidlais.[110]

5.15 Mae asiantau pleidleisio a chyfrif yn gaeth i ofynion cyfrinachedd ac mae'n rhaid rhoi copi ysgrifenedig o'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol iddynt.[111]

5.16 Os yw asiant pleidleisio neu gyfrif yn marw neu'n mynd yn analluog i weithredu, gall y person a'u penododd benodi asiant arall yn eu lle. Mae'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r penodiad i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).[112]

[108] Rheol 32(2), PER.
[109] Rheol 30, PER.
[110] Rheol 30(3), PER.
[111] Rheol 31, PER.
[112] Rheol 30(4), PER.

6 Marwolaeth ymgeisydd

6.1 Mae effaith marwolaeth ymgeisydd ar etholiad Seneddol y DU yn dibynnu p'un a oedd yr ymgeisydd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig ai peidio.

Marwolaeth ymgeisydd annibynnol

6.2 Os yw ymgeisydd annibynnol (h.y. ymgeisydd sy'n defnyddio'r disgrifiad 'Independent' neu 'Annibynnol', neu ymgeisydd nad yw'n defnyddio unrhyw ddisgrifiad) yn marw, bydd yr etholiad yn parhau fel arfer.[113]

6.3 Os na wnaeth yr ymgeisydd annibynnol sydd wedi marw gael mwyafrif y pleidleisiau yn y bleidlais wreiddiol, caiff y person a wnaeth ei ddatgan yn enillydd ac nid effeithir ar yr etholiad.

6.4 Os yw'r ymgeisydd ymadawedig yn derbyn mwyafrif y pleidleisiau, ni chânt eu hethol a chynhelir yr etholiad eto. Ni fydd angen unrhyw enwebiadau newydd: bydd yr holl ymgeiswyr sydd eisoes yn bodoli yn parhau wedi eu henwebu ar gyfer yr etholiad newydd a bydd cadw neu ddychwelyd y blaendal yn cael ei benderfynu gan ganlyniad yr etholiad a gynhelir eto. Ni chaniateir unrhyw enwebiadau newydd ar gyfer yr etholiad a gynhelir eto er y gall ymgeiswyr dynnu'n ôl.

6.5 Os yw'r ymgeisydd a fu farw yn dod yn gydradd gyntaf gyda'r un faint o bleidleisiau ag unrhyw ymgeisydd arall, caiff yr ymgeisydd arall ei ddatgan yn enillydd.

6.6 O dan yr holl amgylchiadau, mae'n rhaid dychwelyd blaendal yr ymgeisydd ymadawedig.[114]

Marwolaeth ymgeisydd plaid

Yr adeg yr hysbysir y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ynghylch y prawf marwolaeth yw'r elfen berthnasol, nid union adeg y farwolaeth.

6.7 Os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derbyn prawf ac yn fodlon bod ymgeisydd sydd yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig wedi marw cyn cyhoeddi'r canlyniad, mae'n rhaid atal yr etholiad ar unwaith.[115] Os yw'r bleidlais ar y gweill neu os yw'r cyfrif wedi dechrau, rhoddir y gorau i'r bleidlais. Bydd angen ailgynnal yr etholiad.

6.8 Bydd unrhyw berson a gafodd ei enwebu'n ddilys ar gyfer yr etholiad cyntaf, ac eithrio'r ymgeisydd sydd wedi marw, yn parhau wedi ei enwebu'n

[113] Rheolau 60 i 62, PER
[114] Rheol 60(3), PER.
[115] Rheol 63, PER.

ddilys oni bai eu bod yn tynnu'n ôl erbyn y dyddiad cau. Bydd cadw neu ddychwelyd y blaendal yn cael ei benderfynu gan ganlyniad yr etholiad a gynhelir eto.

6.9 Ni chaniateir unrhyw enwebiadau newydd ar gyfer ailgynnal yr etholiad ac eithrio y gall y blaid y mae eu hymgeisydd wedi marw enwebu ymgeisydd yn eu lle. Mae angen set newydd o bapurau enwebu ar gyfer yr ymgeisydd hwn. Nid yw llofnodwyr yr ymadawedig yn cael eu hatal rhag llofnodi ymgeisydd newydd y blaid. Mae'n rhaid i'r blaid gyflwyno tystysgrif awdurdodi newydd i alluogi enwebu ymgeisydd o'u dewis i sefyll.

6.10 Gall unrhyw ymgeisydd dynnu'n ôl o'r bleidlais wedi ei haildrefnu erbyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl ar gyfer yr etholiad newydd. Mae'n rhaid i blaid sy'n dymuno cyflwyno ymgeisydd newydd i gymryd lle'r ymgeisydd sydd wedi marw wneud hynny erbyn diwedd y cyfnod enwebu yn seiliedig ar yr amserlen newydd.

Marwolaeth llefarydd Tŷ'r Cyffredin

6.11 Os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derbyn prawf a'i fod yn fodlon cyn cyhoeddi'r canlyniad bod ymgeisydd a oedd yn Llefarydd Tŷ'r Cyffredin oedd yn ceisio cael ei ailethol wedi marw, yna mae'n rhaid atal yr etholiad ar unwaith. [116] Os yw'r bleidlais ar y gweill neu os yw'r cyfrif yn cael ei gynnal yna rhoddir y gorau i'r pleidleisio. Caiff yr etholiad ei hailgynnal.

6.12 Bydd unrhyw berson a enwebwyd yn ddilys ar gyfer yr etholiad cyntaf, ac eithrio'r ymgeisydd sydd wedi marw, yn parhau wedi eu henwebu'n ddilys oni bai eu bod yn tynnu'n ôl erbyn y dyddiad cau.

6.13 Gall unrhyw un ddewis sefyll yn yr etholiad newydd. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno enwebiadau newydd naill ai fel ymgeisydd annibynnol neu fel ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig.

6.14 Mae unrhyw berson a gafodd eu henwebu'n ddilys ar gyfer yr etholiad cyntaf, ac eithrio'r ymgeisydd sydd wedi marw, yn parhau wedi eu henwebu'n ddilys oni bai eu bod yn tynnu'n ôl erbyn y dyddiad cau.

6.15 Nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all gyflwyno enwebiadau newydd ar gyfer yr etholiad newydd, naill ai fel ymgeisydd annibynnol neu fel ymgeisydd o blaid wleidyddol arall.

Etholiad newydd

6.16 Dylid paratoi'r amserlen ar gyfer unrhyw etholiad newydd fel pe bai'r gwrit wedi ei dderbyn saith diwrnod ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn y prawf o farwolaeth. Mae hyn at ddibenion cyfrifo; ni fydd y gwrit yn cael ei ailanfon o reidrwydd. Mae'n rhaid i'r diwrnod pleidleisio

[116] Rheol 64, PER.

newydd fod rhwng 15 a 19 diwrnod gwaith ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn prawf o farwolaeth yr ymgeisydd. [117]

[117] Rheolau 61, 63, 64 PER.

7 Cynhyrchu a dosbarthu cardiau pleidleisio

7.1 Mae'n ofynnol ar y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) anfon cardiau pleidleisio cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl cyhoeddi hysbysiad yr etholiad.[118]

7.2 Mae'n ofynnol ar Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) i anfon cardiau pleidleisio i bob etholwr cofrestredig ac eithrio etholwyr dramor. Mae hyn yn cynnwys pleidleiswyr gorsafoedd pleidleisio, pleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy.

Cynhyrchu

7.3 Mae'n ofynnol i gardiau pleidleisio fod ar y fformat a ddisgrifir yn y ddeddfwriaeth[119] neu ffurf debyg ac mae'n rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r etholaeth
- enw'r etholwr, cyfeiriad cymhwyso a'r rhif ar y gofrestr
- dyddiad ac oriau'r bleidlais
- yn achos etholwr nad oes ganddo bleidlais drwy'r post, lleoliad gorsaf bleidleisio'r etholwr
- yn achos pleidleisiwr drwy'r post neu drwy ddirprwy, cadarnhad y bydd yr etholwr yn derbyn eu papur pleidleisio drwy'r post, gydag arwydd ynghylch pryd y maent yn debygol o gael eu hanfon allan, a gwybodaeth ynghylch sut y gall yr etholwr drefnu canslo pleidlais drwy'r post
- yn achos pleidleisiwr trwy ddirprwy neu bleidleisiwr drwy ddirprwy drwy'r post, enw a chyfeiriad y dirprwy yn ogystal â manylion yr etholwr y mae'r dirprwy yn pleidleisio ar ei ran[120]
- gwybodaeth arall y mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o'r farn ei bod yn briodol – gellir rhoi gwybodaeth wahanol i etholwyr gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o etholwyr

7.4 Yn achos etholwr â chofnod dienw, mae'n rhaid anfon y cerdyn pleidleisio mewn amlen sy'n ei orchuddio. Dylid egluro ar y cerdyn pleidleisio bod yn **rhaid** i'r etholwr dienw neu eu dirprwy fynd â'u cerdyn pleidleisio i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Ni ddylid dangos enw a chyfeiriad yr etholwr dienw ar y cerdyn pleidleisio.

7.5 Wrth gynhyrchu cardiau pleidleisio, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol):

- Eu cynhyrchu mewn print clir, mawr.
- Cynnwys rhif llinell gymorth a chyfeiriad rhyngrwyd ac ebost y gall pobl eu defnyddio os oes ganddynt unrhyw ymholiadau.

[118] Rheol 28, PER.
[119] Atodlen 2, RPR 2001.
[120] Atodiad ffurflenni, RPR 2001.

- Ystyried cynnwys manylion pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ar y cerdyn pleidleisio, gan roi'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.
- Ystyried cynnwys mapiau yn dangos lleoliad yr orsaf bleidleisio. Os yw'r lleoliadau neu'r trefniadau mynediad wedi newid, mae'n arbennig o bwysig tynnu sylw'r etholwyr at hyn. Ni ddylai unrhyw fap sy'n cael ei gynnwys fod mor fach fel bod yr etholwyr yn cael anhawster yn ei ddarllen.
- Dylid cynnwys cod post llawn yr orsaf bleidleisio fel y gall yr etholwyr hynny sy'n defnyddio llywio â lloeren neu'n chwilio map arlein ddod o hyd i'r man cywir yn hawdd.
- Ystyried cynnwys unrhyw fanylion mynediad ar gardiau pleidleisio, gan ystyried maint y cerdyn pleidleisio sy'n cael ei ddefnyddio. Er enghraifft, hysbysu etholwyr ynghylch gwybodaeth hygyrchedd perthnasol, fel y ffaith bod ramp dros dro ar gael os oes angen, bod bythau lefel isel, a phapurau pleidleisio print mawr a phatrymluniau pleidleisio cyffyrddadwy ar gael. Os yw'r cerdyn pleidleisio yn rhy fach i ganiatáu ychwanegu'r wybodaeth ychwanegol hon, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried ffyrdd amgen o ledaenu'r wybodaeth ychwanegol hon.

Dosbarthu

7.6 Gellir dosbarthu cardiau pleidleisio â llaw neu drwy'r post, gyda'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu ar y dull mwyaf priodol ar gyfer yr ardal benodol. Os bydd cardiau pleidleisio yn cael eu dosbarthu gan ddarparwr gwasanaeth post, dylid rhoi datganiad ysgrifenedig i ddarparwr y gwasanaeth gyda phob llwyth o gardiau pleidleisio, yn dangos nifer y cardiau a'r dosbarthiadau pleidleisio y maent yn berthnasol iddynt. Dylid cael prawf postio ac, os yn bosibl, olrhain y dosbarthu er mwyn cynorthwyo i ymateb i unrhyw ymholiadau yn ymwneud â diffyg dosbarthu posibl.

8 Cynhyrchu a dyrannu papurau pleidleisio

8.1 Unwaith mae'r broses enwebu wedi ei chwblhau ac mae'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd wedi cael ei gyhoeddi, gellir argraffu'r papurau pleidleisio.

Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried yn ystod y cam cynllunio a fydd cynhyrchu'r papurau pleidleisio yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr allanol ai peidio ac, fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, dylent gyfeirio at ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar weithio gyda phartneriaid allanol yn *Hanfodion rheolaeth effeithiol ar etholiadau: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU.*

8.2 Mae'r Comisiwn yn cynghori'n gryf bod proflenni a fersiynau terfynol y papurau pleidleisio yn cael eu gwirio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau. Er bod yn rhaid cynhyrchu papurau pleidleisio o fewn terfynau amser caeth, mae'n hanfodol bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn amserlennu ac yn cymryd amser i brawfddarllen y papurau pleidleisio.

Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi rhai o'u gweithdrefnau i ddarparwr allanol, fel cynhyrchu papurau pleidleisio ond ni ellir dirprwyo eu cyfrifoldeb personol am gynnal yr etholiad.

8.3 Ni ddylid argraffu unrhyw lwyth o bapurau pleidleisio mewn cyhoeddiad pleidlais drwy'r post na'u cyflenwi mewn gorsaf bleidleisio oni bai eu bod wedi cael eu gwirio gan un aelod o staff o leiaf yn erbyn y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r tystysgrifau yn gwneud cais i ddefnyddio arwyddluniau er mwyn sicrhau bod:

- Pob ymgeisydd wedi ei gynnwys ar y papur pleidleisio.
- Pob manylyn ar y papur pleidleisio wedi ei sillafu'n gywir.
- Pob arwyddlun y gwnaed cais dilys amdano wedi cael ei gynnwys.
- Holl ddisgrifiadau'r pleidiau a'r holl arwyddluniau wedi cael eu hargraffu gan yr ymgeisydd cywir.
- Os oes mwy nag un etholaeth, bod y papurau pleidleisio cywir yn cael eu rhoi i'r pleidleiswyr drwy'r post neu'r orsaf bleidleisio berthnasol fel y bo'n briodol.

Diogeledd papurau pleidleisio

8.4 Dylid nodi y gellir argraffu'r marc swyddogol pan gaiff y papurau pleidleisio eu creu ac nid oes angen ei ychwanegu wrth eu cyhoeddi. Mewn achosion fel hyn mae papurau pleidleisio o'r fath yn eu hanfod yn 'weithredol' cyn gynted ag y maent wedi cael eu hargraffu. Dylid felly rhoi trefniadau diogeledd ychwanegol ar waith i atal mynediad diawdurdod i'r papurau neu ddefnydd ohonynt yn ystod y broses gynhyrchu, pan fyddant ym meddiant yr argraffydd, ac wrth eu dosbarthu i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a chael eu storio gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Ffurf y papur pleidleisio

8.5 Caiff ffurf y papur pleidleisio ei rhagnodi yn y ddeddfwriaeth ac mae'n rhaid dilyn y cyfarwyddiadau hyn[121] yn union gywir.

8.6 Mae'n rhaid i bapurau pleidleisio ar gyfer pleidleiswyr drwy'r post ac at ddefnydd gorsafoedd pleidleisio fod ar yr un ffurf (ac eithrio y gall y marc swyddogol fod yn wahanol os dymunir hynny).

8.7 Mae'n rhaid ychwanegu marc diogeledd priodol i'r papur pleidleisio – y '**marc swyddogol**' – a dylid nodi'r canlynol:[122]

- Mae'n rhaid i'r marc fod yn unigryw ac nid oes rhaid iddo fod yn fandylliad a ychwanegwyd ar adeg cyhoeddi'r papur pleidleisio, er y gellir defnyddio offerynnau stampio o hyd i greu marc swyddogol mandyllog.
- Gallai fod yn arwyddlun neu farc wedi ei argraffu neu ddyfais argraffu arbennig fel dyfrnod.
- Gall y marc swyddogol fod yr un peth ar gyfer yr holl bapurau pleidleisio mewn etholiad neu gellir defnyddio marciau swyddogol gwahanol at ddibenion gwahanol yn yr un etholiad, er enghraifft un ar gyfer pleidleisiau drwy'r post ac un arall ar gyfer papurau pleidleisio gorsafoedd pleidleisio.
- Ni ellir ailddefnyddio'r marc swyddogol am saith mlynedd mewn etholiad yn yr un etholaeth.
- Dylai'r marc swyddogol fod yn amlwg ar flaen y papur pleidleisio fel y gellir ei weld wrth gyfrif heb orfod troi'r papur pleidleisio drosodd.

Cefn y papur pleidleisio

8.8 Mae'n rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol ar gefn y papur pleidleisio ar y fformat canlynol:[123]

Rhif [rhif y papur pleidleisio]
Etholiad ar gyfer Etholaeth Votetown
ar Diwrnod Mis 20XX

8.9 Yn ogystal, mae'n rhaid i'r **ddau** canlynol gael eu hargraffu ar **gefn** y papur pleidleisio:[124]

- rhif papur pleidleisio sy'n dilyn y llythrennau 'Rhif' (gweler uchod)
- marc adnabod unigryw arall

8.10 Gall y marc adnabod unigryw fod yn llythrennau a rhifau a gall ailadrodd rhif y papur pleidleisio gan ychwanegu rhagddodiad neu ôl-ddodiad. Hefyd, gall marc adnabod unigryw fod yn god bar, ond nid oes rhaid iddo fod. **Nid** yw yr un peth â marc swyddogol.

---

[121] Rheol 19 ac Atodiad o Ffurflenni, PER.
[122] Rheol 20, PER.
[123] Ffurf cefn papur pleidleisio, Atodiad o ffurflenni, PER.
[124] Rheol 19(2)(c), PER.

Dylai rhif y papur pleidleisio:

- fod yn unigryw ar gyfer pob papur pleidleisio yn yr etholiad
- rhedeg yn olynol ond nid oes rhaid iddo ddechrau ar '1'
- cael ei argraffu ar gefn y papur pleidleisio

Dylai'r marc adnabod unigryw:

- fod yn unigryw ar gyfer pob papur pleidleisio yn yr etholiad
- bod yn un y gellir ei ailddefnyddio yn yr etholiad nesaf
- cael ei argraffu ar gefn y papur pleidleisio

Gall y marc swyddogol:

- fod yn unrhyw farc y mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) o'r farn ei fod yn rhoi diogeledd priodol
- bod yr un peth ar gyfer yr holl bapurau pleidleisio mewn etholiad neu gellir defnyddio marciau gwahanol at ddibenion gwahanol yn yr un etholiad
- ni ellir ei ailddefnyddio am saith mlynedd yn yr etholaeth
- dylai fod yn amlwg ar flaen y papur pleidleisio

8.11 Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch beth i'w ddefnyddio fel marc swyddogol a marc adnabod unigryw yn gynnar yn y broses gynllunio, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau a pharatoadau gyda'r argraffwyr fel y bo'n briodol.

8.12 Oherwydd y defnydd o restr rhifau cyfatebol ar y cyd â chyhoeddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post a chyhoeddi papurau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio, nid oes angen i bapurau pleidleisio gael bonyn ffoil ynghlwm wrthynt. Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried felly gyda'r cyflenwyr argraffu sut i gynhyrchu'r papurau pleidleisio yn y ffordd orau ar gyfer eu defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio. Gall yr opsiynau gynnwys llyfrau heb fonion ffoil sydd wedi eu gludio'n gadarn wrth y sêm neu gael y llyfrau gyda bonion gwag, cul sy'n cael eu taflu ar ôl eu defnyddio.

Argraffu manylion ymgeiswyr

8.13 Dylid rhestru'r ymgeiswyr fel yn y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd. Dylid argraffu cyfenw pob ymgeisydd ar ei ben ei hun mewn priflythrennau mawr, gyda'r manylion eraill wedi eu hargraffu mewn teip arferol, h.y. mewn strwythur brawddeg arferol. Yr **eithriad** yw os bydd dau ymgeisydd neu fwy yn rhannu'r un cyfenw. Yn yr achos hwn, dylid argraffu enwau'r ymgeiswyr eraill mewn priflythrennau bach.

8.14 Dylid argraffu manylion cyfeiriad yr ymgeisydd, fel y dengys ar y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, islaw hwnnw. Os bydd etholaeth Seneddol y DU neu wlad yn cael ei dangos yn lle'r cyfeiriad llawn am fod yr ymgeisydd wedi gwneud cais i gadw manylion eu cyfeiriad cartref yn breifat, mae'n rhaid iddo fod ar y fformat hwn: (cyfeiriad yn Etholaeth Votetown), neu, ar gyfer gwlad nad yw yn y DU: (cyfeiriad yn Ballotland).

8.15 O dan fanylion y cyfeiriad, mae'n rhaid argraffu'r disgrifiad (os y'u rhoddir), fel y nodir yn y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd.

8.16 Os yw ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol wedi gwneud cais amdano, mae'n rhaid cynnwys arwyddlun gofynnol y blaid y maent yn ei chynrychioli gerllaw eu henw. Os yw arwyddlun cofrestredig i gael ei argraffu yn erbyn enw ymgeisydd, ni ddylai fod yn fwy na dau gentimetr sgwâr. Os yw'r ymgeisydd yn darparu copi o'r arwyddlun, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod y copi a ddarperir yn gopi union gywir o'r arwyddlun cofrestredig.

8.17 Dylid rhannu'r gofod cyfan rhwng brig a gwaelod y papur pleidleisio yn gyfartal yn llorweddol, h.y. mae'n rhaid i bob gofod ar gyfer manylion yr ymgeisydd fod yn gyfartal ac mae'n rhaid darparu gofod o'r un maint ar gyfer y canllawiau ar frig y papur pleidleisio. Argymhellir hefyd defnyddio'r meintiau ffont mwyaf posibl. Dylid defnyddio'r un maint ffont ar gyfer pob ymgeisydd. Mae'r manylion ynghylch argraffu yn fanwl gywir a dylid eu dilyn yn ofalus er mwyn sicrhau cydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyfreithiol.[125]

8.18 Ni chaiff lliw y papurau pleidleisio ei ragnodi a'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) fydd yn penderfynu hyn; fodd bynnag, pa liw a thrwch papur bynnag a ddewisir, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gysylltu â'r argraffydd yn gynnar yn y broses gynllunio er mwyn sicrhau y bydd stoc ddigonol o bapur i argraffu papurau pleidleisio ar fyr rybudd. Mae'n rhaid i bapurau pleidleisio a gyflwynwyd, fodd bynnag, fod yn lliw gwahanol i'r papurau pleidleisio cyffredin.[126]

Dyrannu papurau pleidleisio

8.19 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu'r fath nifer o bapurau pleidleisio ar gyfer gorsaf bleidleisio ag y maent yn ei ystyried yn angenrheidiol.[127] Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r nifer angenrheidiol; dylid tynnu nifer y pleidleiswyr drwy'r post o'r cyfrifiad.

8.20 Wrth ddyrannu papurau pleidleisio, mae'n bwysig bod y rhifau a roddir i bob Swyddog Llywyddu yn rhedeg yn olynol er mwyn osgoi unrhyw broblemau wrth gwblhau'r rhestr rhifau cyfatebol neu gyfrifon papurau pleidleisio.

[125] Atodiad o ffurflenni, PER.
[126] Rheol 40(2)(a), PER.
[127] Rheol 29(1), PER.

8.21 Dylid cynghori Swyddogion Llywyddu hefyd i wirio rhifau'r papurau pleidleisio a ddyrannwyd iddynt er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wallau argraffu, rhifo na dosbarthu.

8.22 Mae'n rhaid rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd hefyd i'r Swyddogion Llywyddu. Mae'n rhaid iddynt fod yn lliw gwahanol i'r papurau pleidleisio cyffredin[128] a dylid eu rhoi mewn amlen gyda chyfarwyddiadau yn datgan y dylid ond agor yr amlen a'r papurau pleidleisio a gyhoeddwyd mewn amgylchiadau a ragnodwyd, ynghyd â manylion byr yr amgylchiadau hynny. Gall hyn helpu i osgoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn cael eu cyhoeddi mewn camgymeriad. Dylid ategu'r neges hon yn y sesiynau briffio neu hyfforddi ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio.

8.23 Wrth benderfynu ar nifer y papurau pleidleisio a gyflwynwyd sydd i gael eu rhoi i orsafoedd pleidleisio, dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried y gellir cyhoeddi papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn yr amgylchiadau canlynol ac os yw'r cwestiynau a ragnodwyd wedi cael eu hateb yn foddhaol:

- Mae etholwr neu ddirprwy wedi cael ei farcio ar y gofrestr neu unrhyw hysbysiad diwygio, neu ar y rhestr o ddirprwyon, fel rhywun sydd eisoes wedi pleidleisio.
- Mae etholwr neu ddirprwy a nodir ar y gofrestr etholwyr a'r rhestr pleidleiswyr drwy'r post neu drwy ddirprwy fel rhywun sydd wedi cael papur pleidleisio drwy'r post yn honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post.
- Ar ôl 5pm, mae etholwr neu ddirprwy a nodir ar y gofrestr etholwyr a'r rhestr o bleidleiswyr drwy'r post neu drwy ddirprwy fel rhywun sydd wedi cael papur pleidleisio drwy'r post yn honni ei fod wedi colli neu heb dderbyn eu pleidlais drwy'r post.

Rhestr rhifau cyfatebol

8.24 Bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried sut y caiff y rhestri rhifau cyfatebol eu cynhyrchu, gan fod yn rhaid cofnodi rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gyfer pob papur pleidleisio sy'n cael ei argraffu. Mae'r rhestri rhifau cyfatebol yn ddogfennau a ragnodir.[129] Ceir dwy restr rhifau cyfatebol: L1 a L2.

8.25 Bydd Ffurflen L1 yn cynnwys rhif pob papur pleidleisio a gynhyrchwyd ar gyfer yr etholiad a'r marc adnabod unigryw cyfatebol ar gyfer y papur pleidleisio hwnnw. Caiff ei defnyddio hefyd ar gyfer cyhoeddi pleidleisiau drwy'r post ac felly mae'n cynnwys colofn ar gyfer ychwanegu rhif yr etholwr ar gyfer y papurau pleidleisio hynny a gyhoeddir yn y rhifyn pleidleisiau drwy'r post.

8.26 Mae Ffurflen L2 ar gyfer ei defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio ac mae ond yn cynnwys rhif y papur pleidleisio a cholofn ar gyfer ychwanegu rhifau etholwr pleidleiswyr y caiff y papurau pleidleisio eu cyhoeddi ar eu

[128] Rheol 40(2), PER.
[129] Rheoliad 63A ac Atodiad o Ffurflenni, ffurflenni L1 a L2, RPR 2001.

cyfer. Caiff y rhif cyfatebol hwn ar gyfer yr orsaf bleidleisio ei gynhyrchu i gyd-fynd â'r papurau pleidleisio a gyhoeddir ar gyfer pob gorsaf bleidleisio. Er y gall y ffurflenni hyn gael 'eu haddasu cyhyd â sydd yn ofynnol yn ôl amgylchiadau', gan gyfeirio'n benodol at y rhestr rhifau cyfatebol i'w defnyddio yn yr orsaf bleidleisio, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) nodi nad yw hyn yn caniatáu i'r rhestr rhifau cyfatebol gael ei chynhyrchu yn nhrefn rhifau etholwr. Mae'n rhaid ei chynhyrchu yn nhrefn papurau pleidleisio.

Cyfuno

Mae cyfuno pleidleisiau yn gofyn bod rhestr rhifau cyfatebol yn cael ei defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio.[130] Os yw argraffu pleidleisiau drwy'r post wedi cael ei gyfuno, yna bydd yn rhaid defnyddio rhestr rhifau cyfatebol wedi ei chyfuno wrth gyhoeddi pleidleisiau drwy'r post.

[130] Atodiad o Ffurflenni, ffurflenni M1 a M2, RPR 2001.

9 Hysbysiadau a chyfarpar pleidleisio

Hysbysiad y bleidlais

9.1 Os oes mwy o ymgeiswyr nag o swyddi gwag a bod gornest i fod, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gyhoeddi hysbysiad y bleidlais wedi ei gyfuno â datganiad ynghylch y personau a enwebwyd a'r diwrnod a'r oriau sydd wedi eu trefnu ar gyfer y bleidlais.[131]

Hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio

9.2 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) roi hysbysiad cyhoeddus o sefyllfa pob gorsaf bleidleisio a disgrifiad y pleidleiswyr sydd â hawl i bleidleisio yno.[132] Mae hyn yn golygu dangos rhifau etholwr yr etholwyr sydd â hawl i bleidleisio ym mhob gorsaf bleidleisio. Gellir cyfuno'r hysbysiad hwn â hysbysiad y bleidlais ac hefyd gyda'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd.

9.3 Wrth benderfynu ar y gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir yn yr etholiad, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ymgynghori â'r rhestr o fannau pleidleisio sy'n cael ei chadw gan yr awdurdod lleol. Dylai'r orsaf bleidleisio fod yn y man pleidleisio ar gyfer yr ardal honno. Dylid hefyd ystyried unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod yr adolygiad diwethaf ynghylch unrhyw faterion hygyrchedd a'r ffordd y gellir mynd i'r afael â hwy ar gyfer yr etholiad hwn.

9.4 Dylai pob asiant yr etholiad gael copïau o hysbysiad y bleidlais a'r hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.[133]

9.5 Caiff hysbysiad cyhoeddus ei ddiffinio fel postio'r hysbyseb mewn man neu fannau amlwg yn yr etholaeth.[134] Gellir hefyd rhoi hysbysiad mewn unrhyw ffordd arall y mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ei ystyried yn briodol. Dylid defnyddio'r holl sianeli cyfathrebu priodol, a ddylai gynnwys defnyddio gwefan y cyngor lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl.

Cyfarpar, hysbysiadau a chyflenwadau gorsafoedd pleidleisio

9.6 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu deunyddiau ar gyfer pob gorsaf pleidleisio i alluogi pleidleiswyr i farcio'r papurau pleidleisio.[135] Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi unrhyw ddull penodol, ond pensiliau yw'r dull mwyaf cyfleus mwy na thebyg. Mae'n synhwyrol

[131] Rheol 23, PER.
[132] Rheol 23, PER.
[133] Rheol 23, PER.
[134] Adran 200(1), RPA 1983.
[135] Rheol 29, PER.

sicrhau bod ansawdd y papurau pleidleisio yn ffafriol i bensiliau a bod y pensiliau yn addas ar gyfer gwneud marc clir, bras.

Ceir rhestr wirio o'r eitemau y mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) eu darparu ar gyfer pob gorsaf bleidleisio yn Atodiad Rhan CH, 'Y bleidlais', 'Adnoddau'.